



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Mercher 20 Hydref 1999

Wednesday 20 October 1999

Cynnwys Contents

- | | |
|----|---|
| 3 | Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd
<i>Questions to the Secretary for Economic Development</i> |
| 11 | Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid
<i>Questions to the Finance Secretary</i> |
| 17 | Datganiad ar Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd
<i>Statement on the Cardiff Bay Development Corporation</i> |
| 29 | Cynllun Corfforaethol: Blaenoriaethau Strategol
<i>Corporate Plan: Strategic Priorities</i> |
| 64 | Penderfyniad ar y Cynllun Pensiwn
<i>Resolution on the Pension Scheme</i> |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

**Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd
Questions to the Secretary for Economic Development**

**Swyddi mewn Gweithgynhyrchu Tecstilau
Jobs in Textile Manufacturing**

Q1 Peter Black: Has Rhodri Morgan had discussions with UK Government Ministers with a view to securing Welsh jobs in textile manufacturing by the introduction of compulsory country of origin labelling for clothes sold in Wales? (OAQ1485VB)

C1 Peter Black: A yw Rhodri Morgan wedi cael unrhyw drafodaethau â Gweinidogion Llywodraeth y DU i ddiogelu swyddi gweithgynhyrchu tecstilau yng Nghymru trwy gyflwyno labelu gorfodol yn nodi gwlad gynhyrchu'r dillad a werthir yng Nghymru? (OAQ148VB)

The Secretary for Economic Development (Rhodri Morgan): I have had no discussions on the matter. UK origin marking requirements were repealed in the late 1980s as a result of European Court of Justice Case No. 207/83 which found them to be contrary to article 30 of the Treaty of Rome because they facilitated discrimination in favour of national products. However, nothing prevents Welsh manufacturers from origin marking on a voluntary basis and marketing their products as 'Made in Wales'.

Yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd (Rhodri Morgan): Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau am y mater hwn. Cafodd gofynion nodi gwlad gynhyrchu'r DU eu dileu ddiwedd y 1980au yn sgîl Achos Rhif 207/83 Llys Cyfiawnder Ewrop, a ganfu eu bod yn mynd yn groes i erthygl 30 Cytundeb Rhufain gan eu bod yn hyrwyddo camwahaniaethu o blaid cynnyrch cenedlaethol. Fodd bynnag, does dim yn rhwystro cwmnïau gweithgynhyrchu Cymru rhag nodi'r wlad gynhyrchu yn wirfoddol gan farchnata eu nwyddau fel rhai a 'Wnaethpwyd yng Nghymru'.

Peter Black: The amount of money that Wales receives from the Department of Trade and Industry to develop export initiatives is small compared to the rest of the UK. English companies who manufacture in Wales often market their goods as 'Made in the UK'. Will you strengthen the Assembly export promotion departments by bringing in private sector expertise and encouraging Welsh firms to adopt the 'Made in Wales' label for their goods so as to assist existing businesses to survive, encourage new businesses and enable consumers to make an informed choice between products made in Wales and those produced by slave labour in the far east?

Peter Black: Mae'r swm o arian y mae Cymru yn ei gael gan yr Adran Diwydiant a Masnach i ddatblygu mentrau allforio yn fach o'i gymharu â gweddill y DU. Mae cwmnïau o Loegr sydd yn cynhyrchu yng Nghymru yn aml yn marchnata eu nwyddau fel rhai a 'Wnaethpwyd yn y DU'. A ydych chi'n barod i gryfhau adrannau hyrwyddo allforion y Cynulliad drwy ddwyn i mewn arbenigedd o'r sector preifat ac annog cwmnïau Cymreig i fabwysiadu'r label 'Gwnaethpwyd yng Nghymru' ar gyfer eu nwyddau er mwyn helpu busnesau sefydledig i barhau ac fel y gall defnyddwyr ddewis nwyddau gan wybod pa rai a wnaethpwyd yng Nghymru a pha rai a gynhyrchwyd drwy lafur caled yn y dwyrain pell?

Rhodri Morgan: It would not be proper for the Assembly to comment on what happens in the far east. However, I encourage Welsh

Rhodri Morgan: Ni fyddai'n briodol i'r Cynulliad wneud sylwadau ar yr hyn sydd yn digwydd yn y dwyrain pell. Fodd bynnag, yr

manufacturers to origin mark their products as 'Made in Wales'. That does not appear to fall foul of article 30 of the Treaty of Rome. It has to be on a voluntary basis but I would commend it as a course of action.

In the past, we have tended to hide our light under a bushel in Wales. It was not possible for producers to label products made in Wales with 'Made in England' without infringing trading standards. Therefore we knew that goods were made in Wales because they were labelled 'Made in Britain' whereas products made in England were labelled 'Made in England'. We are now more confident about the quality of products from Wales and therefore 'Made in Wales' is more appropriate than 'Made in Britain' for Welsh products, especially as it is illegal to put 'Made in Britain' on them.

With regard to your remarks on export, we will be doubling the number of Assembly sponsored overseas trade missions which give small and medium-sized firms the opportunity to go on group missions. A few have already taken place this year and there is one in Taiwan and Hong Kong at the moment. In mid November, I will, for the first time, lead a mission myself to Kuwait and other Gulf sheikdoms. I will therefore have first-hand experience of how familiar the people of the middle east are with Wales as a result of devolution.

Glyn Davies: Does the Secretary for Economic Development agree that textile manufacturing was at the heart of the restructuring of the rural Wales economy throughout the 1970s and 1980s through firms like Laura Ashley, Ed Walters and Dewhirst? Does he accept that the irresistible cost pressures on retailers to source from overseas has been one of the main reasons why the gross domestic product of rural Wales has been held back through the 1990s making investment in rural Wales a top priority for the Assembly?

Rhodri Morgan: That is true if you define

wyf yn annog cwmnïau gweithgynhyrchu yng Nghymru i labelu eu nwyddau fel rhai a 'Wnaethpwyd yng Nghymru'. Ymddengys nad yw hynny yn tramgwyddo erthygl 30 Cytundeb Rhufain. Rhaid i hyn ddigwydd yn wirfoddol ond buaswn yn ei gymeradwyo fel ffordd o weithredu.

Yn y gorffennol, yr ydym ni yng Nghymru wedi tueddu i oleuo'r gannwyll a'i dodi dan lestr. Nid oedd yn bosibl i gynhyrchwyr labelu nwyddau a wnaethpwyd yng Nghymru gyda 'Gwnaethpwyd yn Lloegr' heb dorri safonau masnach. Felly, fe wyddem fod nwyddau wedi eu gwneud yng Nghymru gan fod label 'Gwnaethpwyd ym Mhrydain' arnynt tra labelwyd 'Gwnaethpwyd yn Lloegr' ar nwyddau a wnaethpwyd yn Lloegr. Yr ydym ni yn awr yn fwy hyderus am ansawdd ein cynnyrch o Gymru ac felly mae 'Gwnaethpwyd yng Nghymru' yn fwy priodol na 'Gwnaethpwyd ym Mhrydain' ar gyfer nwyddau o Gymru, yn enwedig gan ei bod hi'n anghyfreithlon rhoi 'Gwnaethpwyd ym Mhrydain' arnynt.

Yng nghyswllt eich sylwadau am allforio, byddwn yn dyblu nifer y teithiau masnachu tramor dan nawdd y Cynulliad a bydd hyn yn rhoi cyfle i gwmnïau bach a chanolig fynd ar deithiau grŵp. Cynhaliwyd rhai eisoes eleni ac mae yna un yn mynd rhagddi yn Hong Kong a Taiwan ar hyn o bryd. Ganol Tachwedd, byddaf fi, am y tro cyntaf, yn arwain taith fy hunan i Kuwait a sieciaethau eraill y Gwlff. O ganlyniad, bydd gennyf fi brofiad uniongyrchol o ba mor gyfarwydd yw pobl y dwyrain canol gyda Chymru yn sgîl datganoli.

Glyn Davies: A yw'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd yn cytuno mai'r diwydiant gweithgynhyrchu tecstilau oedd wrth wraidd ailadeiladu economi gwledig Cymru gydol y 1970au a'r 1980au drwy gwmnïau fel Laura Ashley, Ed Walters a Dewhirst? A yw ef yn derbyn mai'r pwysau cost llethol ar gwmnïau adwerthu i ddefnyddio ffynonellau tramor yw un o'r prif resymau pam bod cynnyrch mewnwladol crynswth y Gymru wledig wedi'i lesteirio gydol y 1990au gan wneud buddsoddiadau yn y Gymru wledig yn un o'r prif flaenoriaethau i'r Cynulliad?

Rhodri Morgan: Mae hynny yn wir os

textile manufacturing as the production of clothing rather than the production of cloth. Large areas of the Welsh Valleys and mid Wales have been devastated by the fact that UK high-street retailers, particularly Marks & Spencer Plc but also Laura Ashley, are switching from high quality UK-sourced goods with their inevitable higher labour costs to goods from low labour cost countries where the quality is lower but the cost differential is so great that it is difficult to resist. However, what is good for Peacock's Stores Ltd, who source almost entirely from the far east, is not so good for Marks & Spencer and for the companies that used to make clothes and shoes for Marks & Spencer. It is a difficult matter and no Assembly Secretary for Economic Development or Secretary of State for Trade and Industry would find it easy to reverse the trend towards eastern Europe and the far east as sources of low to medium technology production. Wales has unfortunately had a great deal of this type of production.

ydych yn diffinio cynhyrchu tecstilau fel cynhyrchu dillad yn hytrach na chynhyrchu defnydd. Mae ardaloedd mawr o'r Cymoedd a chanolbarth Cymru wedi cael eu distrywio gan y ffaith bod cwmnïau adwerthu stryd fawr y DU, yn arbennig Marks & Spencer Plc ond hefyd Laura Ashley, yn troi o ddefnyddio nwyddau safon uchel o'r DU, gyda'u costau llafur uchel anochel, i ddefnyddio nwyddau o wledydd costau llafur isel lle mae'r safon yn is ond bod y gwahaniaeth mewn costau mor fawr fel bod y demtasiwn yn rhy gryf i'w gwrthod. Fodd bynnag, nid yw'r hyn sydd yn dda i Peacock's Stores Ltd, sydd yn defnyddio ffynonellau o'r dwyrain pell yn gyfan gwbl, gystal i Marks & Spencer nac i'r cwmnïau a arferai wneud dillad ac esgidiau i Marks & Spencer. Mae'n fater anodd ac ni fyddai unrhyw Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd nac Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwydiant a Masnach yn ei chael hi'n hawdd i wyrddroi'r tueddiad i ddefnyddio dwyrain Ewrop a'r dwyrain pell fel ffynonellau cynhyrchu technoleg isel i ganolog. Mae Cymru, yn anffodus, wedi cael llawer iawn o'r math hwn o gynhyrchu.

Ariannu'r Economi Cymdeithasol yng Nghymru Funding of the Social Economy in Wales

Q2 Michael German: Has Rhodri Morgan any plans to review the way in which the social economy in Wales is funded? (OAQ1527VB)

Rhodri Morgan: The social economy was one of the major subjects of study by the European taskforce. The taskforce has now completed its work although it may re-emerge in another form through the various partnerships. The social economy is a key area for support in the Objective 1 programme and we approve of its role in promoting local youth employment opportunities and its central position in sustaining and generating new ideas for community regeneration. The single programming document debated yesterday included, within the community regeneration priority, a measure to support businesses and innovation in the social economy.

Michael German: Voluntary sector bodies in Wales expressed again this morning that

C2 Michael German: A oes gan Rhodri Morgan unrhyw gynlluniau i adolygu'r ffordd yr ariennir yr economi cymdeithasol yng Nghymru? (OAQ1527VB)

Rhodri Morgan: Yr economi cymdeithasol oedd un o'r prif bynciau a astudiwyd gan dasglu Ewrop. Mae'r tasglu bellach wedi cwblhau ei waith er y gallai ailymddangos ar ffurf wahanol drwy'r amrywiol bartneriaethau. Mae'r economi cymdeithasol yn un o'r meysydd cefnogaeth allweddol yn rhaglen Amcan 1 ac yr ydym yn cymeradwyo ei rôl yn hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifainc gael gwaith yn lleol a'i safle canolog yn cynnal ac yn cynhyrchu syniadau newydd ar gyfer adfywio cymunedau. Mae'r ddogfen raglennu sengl a drafodwyd ddoe yn cynnwys, fel rhan o'r flaenoriaeth adfywio cymunedau, mesur i gefnogi busnesau a dyfeisgarwch yn yr economi cymdeithasol.

Michael German: Bu i'r cyrff yn sector gwirfoddol Cymru ddatgan eto'r bore yma eu

they feel unable to rely on consistent funding from one year to the next. They are concerned about the Objective 1 funding package agreed yesterday. Would you agree that the establishment of a community development bank—perhaps as part of the development bank for the Objective 1 money—providing grants and loans to the social economy, would be a significant step towards alleviating the uncertainty felt by the voluntary sector and the social economy?

Rhodri Morgan: The ideas for the development bank for small and medium-sized enterprises do not exclude the voluntary sector or community businesses—the social economy. Those bodies would be able to draw on the resources from the development bank when we finalise its design for supporting the private and the social economy sectors. Both sectors can be innovative and have a role to play in creating the newer, more prosperous Wales which we hope will result from the European assistance programmes debated yesterday.

Geraint Davies: Why is support for the creation and development of businesses in the social economy categorised as a measure for community regeneration in the latest draft of the Objective 1 single programming document and thereby only attracts 7 per cent of the total budget? Does Rhodri not think that it is more appropriate for the social economy to be included in the business development and enterprise section, thereby recognising the importance of the social economy for the future development of Wales?

Rhodri Morgan: I would not have passed the document in the form it was yesterday if I did not think that we had the balance right. However, I recognise that it is a finely balanced argument. We must not give people the wrong impression that the document is ghettoising the social economy. It does not. The appropriate split of the funds is needed to cope with the pressures that will come from the definitions used. We could have used different definitions. We would then have had to change the split in the money. However, we believe that we got it right.

bod yn teimlo na allent ddibynnu ar nawdd cyson o un flwyddyn i'r llall. Maent yn bryderus ynghylch pecyn nawdd Amcan 1 y cytunwyd arno ddoe. A fydddech chi'n cytuno y byddai sefydlu banc datblygu cymunedau—efallai fel rhan o'r banc datblygu ar gyfer arian Amcan 1—yn cynnig grantiau a benthyciadau i'r economi cymdeithasol, yn gam sylweddol tuag at liniaru'r ansicrwydd y mae'r sector gwirfoddol a'r economi cymdeithasol yn ei deimlo?

Rhodri Morgan: Nid yw'r syniad am y banc datblygu ar gyfer busnesau bach a chanolig yn eithrio'r sector gwirfoddol na busnesau cymunedol—yr economi cymdeithasol. Byddai'r cyrff hynny yn gallu manteisio ar yr adnoddau o'r banc datblygu ar ôl inni gwblhau ei gynllun ar gyfer cefnogi'r sectorau preifat a'r economi cymdeithasol. Gall y ddau sector fod yn arloesol a bod â rhan i'w chwarae i greu Cymru mwy newydd, mwy ffyniannus – rhywbeth a welwn, gobeithio, yn sgîl y rhaglenni cymorth Ewropeaidd a drafodwyd ddoe.

Geraint Davies: Pam bod cefnogaeth ar gyfer creu a datblygu busnesau yn yr economi cymdeithasol wedi'i chategoreiddio fel cam i adfywio cymunedau yn nrafft diweddaraf dogfen raglennu sengl Amcan 1 ac nad yw, felly, ond yn denu 7 y cant o gyfanswm y gyllideb? Onid yw Rhodri'n credu ei bod yn fwy addas i'r economi cymdeithasol gael ei gynnwys dan adran datblygu busnesau a menter a, thrwy hynny, gydnabod pwysigrwydd yr economi cymdeithasol ar gyfer datblygu Cymru i'r dyfodol?

Rhodri Morgan: Ni fuaswn wedi pasio'r ddogfen fel ag yr oedd yn sefyll ddoe pe na chredwn ein bod wedi taro ar y cydbwysedd cywir. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod bod y ddadl yn gryf iawn o'r ddwy ochr. Rhaid i ni beidio â rhoi'r argraff anghywir bod y ddogfen yn rhoi'r economi cymdeithasol mewn geto. Nid yw'n gwneud hynny. Mae'n rhaid rhannu'r arian yn briodol er mwyn ymdopi â'r pwysau a ddaw o'r diffiniadau a ddefnyddir. Gallem fod wedi defnyddio diffiniadau gwahanol. Wedyn fe fyddai'n rhaid inni fod wedi rhannu'r arian yn wahanol. Fodd bynnag, yr ydym ni'n credu

ein bod wedi cael pethau'n iawn.

2:09 p.m.

Cyllid Ewropeaidd (Cyrff ac Elusennau Bach)
European Funding (Small Organisations and Charities)

Q3 Alison Halford: What steps have been taken to ensure that small organisations and charities in north Wales have sufficient information to take advantage of the pending European funding? (OAQ1486VB)

Rhodri Morgan: I believe that you are asking if there are any application forms. The answer to that is no, but there will be before April next year. Are we doing enough to distribute the information in this difficult period of the last five months before 1 April next year? Are we ensuring that less well-funded bodies, like charities, understand the application process and do not miss out on money for which they are eligible? Ensuring the flow of information is a job for us in the Assembly, for the Wales Council for Voluntary Action and for various other bodies. We want the place in the queue, when the door opens on the flow of Objective 1 money, to be based on the quality of the project and not on who applied first or who had preferential access to information.

Alison Halford: I wanted to try and resolve the chicken and egg question. Small companies do not have the finances to embark upon expensive schemes in order to draw down money. I wanted to give them some idea where to apply unless I can provide them with the necessary information.

Rhodri Morgan: The North Wales Economic Forum, the North Wales Regional Committee, the Welsh Development Agency's office in north Wales, local enterprise agencies in Flintshire and Wrexham, local authorities and the bodies that represent charities and voluntary organisations like the WCVA, all have a job in a period of uncertainty between now and 1 April next year. We must all try and ensure that there are no good latent projects hidden in the corner because, for some reason, the flow of information has not reached them.

C3 Alison Halford: Pa gamau a gymerwyd i sicrhau bod cyrff ac elusennau bach yng ngogledd Cymru yn cael gwybodaeth ddigonol i allu manteisio ar y cyllid sydd i ddod o Ewrop? (OAQ1486VB)

Rhodri Morgan: Yr wyf yn credu mai'r hyn yr ydych yn ei ofyn yw a oes yna unrhyw ffurflenni cais. Yr ateb i hynny yw nac oes, ond fe fydd yna cyn mis Ebrill y flwyddyn nesaf. A ydym ni'n gwneud digon i ledaenu'r wybodaeth yn y cyfnod anodd hwn o bum mis cyn 1 Ebrill y flwyddyn nesaf? A ydym yn sicrhau bod cyrff na chânt gystal nawdd, megis elusennau, yn deall y broses ymgeisio ac nad ydynt yn methu â chael arian y maent yn gymwys i'w gael? Gwaith i ni yn y Cynulliad, i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac i amrywiol gyrff eraill yw sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei lledaenu. Pan egyr y drysau ar lif arian Amcan 1, yr ydym ni am i'r lle yn y ciw fod yn seiliedig ar safon y prosiect ac nid ar bwy a ymgeisiodd gyntaf neu ar bwy a gafodd fynediad ffafriol at yr wybodaeth.

Alison Halford: Yr oeddwn i am geisio datrys cwestiwn yr iâr a'r ŵy. Nid oes gan gwmnïau bach yr arian i sefydlu cynlluniau costus er mwyn cael yr arian. Yr oeddwn i eisiau rhoi rhyw syniad iddynt ynghylch i ble y dylent ymgeisio oni bai fy mod i'n gallu rhoi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt.

Rhodri Morgan: Mae gan Fforwm Economaidd Gogledd Cymru, Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd, swyddfa Awdurdod Datblygu Cymru yng ngogledd Cymru, asiantaethau mentrau lleol a mudiadau gwirfoddol megis Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, oll waith i'w wneud mewn cyfnod o ansicrwydd rhwng nawr a 1 Ebrill y flwyddyn nesaf. Mae'n rhaid i ni oll geisio sicrhau nad oes yna unrhyw brosiectau cudd da yn cuddio yn y gornel oherwydd nad yw'r llif gwybodaeth, am ryw reswm, wedi eu cyrraedd.

Gareth Jones: Fe gyhoeddasoch ddoe na fydd pwyllgor monitro yn cael ei sefydlu tan fis Ebrill. Mae hyn yn achosi pryder yn y sector gwirfoddol. Sut y byddwch yn sicrhau, yn ystod y cyfnod hwnnw, y byddant yn bartneriaid o ddifrif yn yr hyn sydd yn digwydd? A fyddwch yn eu helpu i baratoi cynnig ar y prosiectau hynny er mwyn sicrhau bod y prosiectau yn cyrraedd y nod ac nad ydynt yn cael eu gwrthod oherwydd eu bod yn mynd ar draws adrannau? Mae gofyn am gymorth a medr arbennig i'w helpu mewn maes dyrys. Mae'r ffaith nad yw'r pwyllgor monitro ar gael iddynt yn anfantais. Sut y bwriadwch ddatrys y sefyllfa hon?

Rhodri Morgan: Mae gofid ac ofnau yn naturiol yn ystod chwe mis o ansicrwydd. Fodd bynnag, dywedais ddoe fy mod bron yn sicr y cawn ni gorff monitro cysgodol nes bydd y cronfeydd yn dechrau llifo. Yr wyf yn gobeithio hefyd y bydd prif weithredwr yn cael ei benodi i reoli'r corff. Gwneir penderfyniad ynghylch aelodaeth y bwrdd ac, fel y soniodd Val Feld ddoe, bydd traean yr un i'r sector gwirfoddol, y sector preifat a'r sector llywodraethol.

Christine Humphreys: Will there be any transitional funds available to ensure that the experience and expertise built up over the years will not be lost in the funding gap between present funds running out and the new European funds coming on stream?

Rhodri Morgan: I would expect considerable attempts to ensure that if there are ongoing projects that have not achieved their potential benefit to GDP in Wales and, if for some reason, those projects are funded from the 1994-99 programme and there is a year's span before they can claim Objective 1 money—depending on their area—effort would be made to bridge the gap. You cannot say that every project that is eligible for assistance from Objective 2 and Objective 5B funding will automatically be eligible for Objective 1. Although the rates of grant are more generous under Objective 1 that does not mean that everything eligible for funding now is eligible under Objective 1.

Gareth Jones: You announced yesterday that a monitoring committee will not be set up until April. This causes concern in the voluntary sector. How will you ensure, during that period, that they will really be partners in the proceedings? Will you help them prepare bids for these projects to ensure that the projects make the grade and that they are not refused because they cut across different departments? Specific assistance and skill are needed to help them in a complex area. The fact that the monitoring committee is not available to them is a disadvantage. How do you intend to resolve this situation?

Rhodri Morgan: There are naturally concerns and fears during six months of uncertainty. However, I said yesterday that I was almost certain that there will be a monitoring body in shadow form until the funds start flowing. I also have a hope that a chief executive will be appointed to manage the organisation. There will be a decision on the membership of the board and, as Val Feld mentioned yesterday, there will be a third each for the voluntary sector, the private sector and the government sector.

Christine Humphreys: A fydd yna unrhyw arian trosiannol ar gael i sicrhau na fydd y profiad a'r arbenigedd a feithriniwyd dros y blynyddoedd yn cael ei golli yn y bwlch cyllido rhwng yr adeg y bydd yr arian presennol yn dod i ben a dechrau'r arian newydd o Ewrop?

Rhodri Morgan: Buaswn yn disgwyl gweld ymgais sylweddol i sicrhau y gwneir ymdrech i geisio pontio'r bwlch, os oes yna brosiectau sefydledig nad ydynt wedi cyflawni eu budd posibl o ran cynnyrch mewnwladol crynswth Cymru ac, os am ryw reswm, bod y prosiectau hynny'n cael eu noddi o raglen 1994-99 a bod yna flwyddyn o fwllch cyn y gallant hawlio arian Amcan 1—gan ddibynnu ar eu hardal. Ni allwch ddweud y bydd pob prosiect sydd yn gymwys i gael cymorth drwy arian Amcan 1 ac Amcan 5B yn gymwys, yn otomatig, am Amcan 1. Er bod cyfraddau'r grant yn fwy hael dan Amcan 1 nid yw hynny'n golygu bod popeth sydd yn gymwys i gael arian yn awr yn gymwys dan Amcan 1.

Christine Chapman: Could you give us an indication of the numbers of local partnerships which have been formed throughout Wales to prepare programmes to use the European money? Do you agree that good preparation now will ensure the best possible outcome from the money when it arrives?

Rhodri Morgan: I cannot give you a number. Before yesterday it would almost have been jumping the gun for people to form such partnerships. There are areas of Wales where they are beginning to take shape—I visited one this morning. However, that is not a condemnation of other areas. The next six months will be a test for us all and for the bottom up approach. Local partnerships do not know what the boundaries will be, whether they need to be co-terminous with local authorities or larger than those of local authorities or whether we are thinking of 20, 10 or whatever. We will not give instructions from the top down but we want to ensure that people are aware that local partnerships need to be formed.

Christine Chapman: A allwch chi roi syniad inni o nifer y partneriaethau lleol a sefydlwyd ledled Cymru i baratoi rhaglenni i ddefnyddio'r arian o Ewrop? Ydych chi'n cytuno y bydd paratoadau da yn awr yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o'r arian pan ddaw?

Rhodri Morgan: Ni allaf roi nifer i chi. Cyn ddoe, bron na fyddai pobl yn gweithredu'n rhy fuan drwy ffurfio partneriaethau o'r fath. Mae yna ardaloedd yng Nghymru lle maent yn dechrau cael eu ffurfio—ymwelais ag un y bore yma. Fodd bynnag, nid yw hynny yn feirniadaeth ar ardaloedd eraill. Bydd y chwe mis nesaf yn brawf inni oll ac i'r dull o weithredu o'r gwaelod i'r brig. Nid yw partneriaethau lleol yn gwybod beth fydd y ffiniau, a fydd yn rhaid iddynt rannu'r un ffiniau ag awdurdodau lleol neu a fydd y ffiniau'n fwy na ffiniau'r awdurdodau lleol neu a ydym yn sôn am 20, 10 neu beth bynnag. Ni wnawn roi cyfarwyddiadau o'r brig i lawr ond yr ydym am wneud yn sicr bod pobl yn ymwybodol bod yn rhaid ffurfio partneriaethau lleol.

Amcan 1 Objective 1

Q4 Alun Cairns: What are the overall proportions required by the EU in terms of the ratio of EU funds to match funds across the whole Objective 1 programmes and are there any minimum or maximum levels in terms of public and/or private sectors? (OAQ1488VB)

Rhodri Morgan: No, there are no fixed sums of that kind set down in the regulations. The financial tables accompanying the single programming document, approved by the Assembly yesterday, set out the Assembly's expectations of commitment levels broken down between the amount of European grant aid and the level of match funding from the UK, both from the public and private sectors.

That was done on guesswork essentially from our knowledge of what has happened elsewhere in the UK and the Irish Republic, the content of new regulations and what the personal views are of certain individuals who

C4 Alun Cairns: Beth yw'r cyfrannau cyffredinol sydd yn ofynnol gan yr UE o safbwynt y gymhareb arian Ewrop i arian cyfatebol ar draws rhaglenni Amcan 1 cyfan ac oes yna unrhyw lefelau uchaf neu isaf o safbwynt sectorau cyhoeddus a/neu breifat? (OAQ1488VB)

Rhodri Morgan: Na, nid oes yna unrhyw symiau penodol o'r fath wedi'u dynodi yn y rheoliadau. Mae'r ddogfen raglennu sengl, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ddoe, yn disgrifio disgwyliadau'r Cynulliad o safbwynt lefelau ymrwymiad wedi'u rhannu rhwng swm y grant o Ewrop a lefel y cyllid cyfatebol o'r DU, o'r sectorau cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd.

Bwrw amcan o hyn a wnaethpwyd, i raddau helaeth, o'n gwybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd mewn mannau eraill yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, o gynnwys y rheoliadau newydd ac o safbwyntiau personol

work for the European Commission about not substituting private sector funding for public funding. These views have been reported widely in the Welsh and UK press. We have had to make an estimate until the determination is made between the Treasury and the European Commission on whether private match funding can be substituted for public UK match funding.

Alun Cairns: Is it not a sad indictment of the administration when a complete answer cannot be given when the Objective 1 structural funds opportunity is only two months away? Do you agree that delaying the announcement for the full match funding for the Objective 1 programme is damaging the ability of the private sector, the public sector and each participant to play a full role in the programme?

Rhodri Morgan: You have gone a bit over the top. Although in theory the starting date is 1 January because the EU uses calendar and not financial years, nobody, including the European Commission, realistically expects a start to be made on considering applications and getting money from Europe into the UK until 1 April 2000. We have five and a half months, not two and a half. By 31 October the Treasury and the European Commission will need to have agreed a form of words which covers the commitment of the Treasury to provide the member state underwriting of the seven-year programme.

We do not lose anything by waiting until 1 April. Also, we do not expect projects to be ready by 1 April because there is a five month period for negotiation on the details of the single programming document that we accepted yesterday and for the writing of the programme complement. That complement details the types of projects, whether software or childcare. I mention those two because they rhyme, not because they will get a high priority although they might. Those kinds of details must be put on to the document that we accepted yesterday in the programme complement. We do not believe that can be done in less than five months. However, I am confident that the doors will be open on 1 April.

unigolion penodol sydd yn gweithio i'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch peidio â gadael i arian cyhoeddus ddisodli arian y sector preifat. Adroddwyd yn helaeth am y safbwyntiau hyn yn y wasg Gymreig a Phrydeinig. Bydd yn rhaid inni fwrw amcan hyd oni geir penderfyniad rhwng y Trysorlys a'r Comisiwn Ewropeaidd i ddweud a ellir defnyddio arian cyfatebol preifat yn lle arian cyfatebol cyhoeddus.

Alun Cairns: Onid yw'n gyhuddiad trist ar y weinyddiaeth pan na ellir rhoi ateb cyflawn pan nad yw'r cyfleoedd dan gronfeydd strwythurol Amcan 1 ond dau fis i ffwrdd? A gytunwch fod oedi cyn cyhoeddi'r arian cyfatebol llawn ar gyfer rhaglen Amcan 1 yn niweidiol i allu'r sector preifat, y sector cyhoeddus a phob cyfranogwr i chwarae rhan llawn yn y rhaglen?

Rhodri Morgan: Yr ydych chi wedi gorddweud pethau braidd. Er mai'r dyddiad dechrau, mewn theori, yw 1 Ionawr gan fod yr UE yn defnyddio'r calendr yn hytrach na blynnyddoedd ariannol, nid oes neb, gan gynnwys y Comisiwn Ewropeaidd, mewn gwirionedd yn disgwyl dechrau ystyried ceisiadau a chael arian o Ewrop i'r DU tan 1 Ebrill 2000. Mae gennym ni bum mis a hanner, nid dau a hanner. Erbyn 31 Hydref bydd yn rhaid i'r Trysorlys a'r Comisiwn Ewropeaidd fod wedi cytuno ar eiriad a fydd yn disgrifio ymrwymiad y Trysorlys i ddarparu gwarant, fel aelod wladwriaeth, i'r rhaglen saith mlynedd.

Nid ydym yn colli unrhyw beth drwy aros tan 1 Ebrill. Yn ogystal, nid ydym yn disgwyl i brosiectau fod yn barod erbyn 1 Ebrill gan fod yna gyfnod o bum mis i drafod manylion y ddogfen raglennu sengl a dderbyniwyd gennym ddoe ac i ysgrifennu dogfennau ategol y rhaglen. Bydd y dogfennau hynny yn manylu ynghylch y mathau o brosiectau, boed y rheini ar gyfer meddalwedd neu ofal plant. Crybwyllais y ddau hyn gan eu bod yn odli yn y Saesneg, nid gan y byddant yn cael blaenoriaeth uchel er bod posibilrwydd y gallai hynny ddigwydd. Rhaid rhoi'r math hyn o fanylion ar y ddogfen a dderbyniwyd gennym ddoe yn nogfennau ategol y rhaglen. Ni chredwn y gellir gwneud hyn mewn llai na phum mis. Fodd bynnag, yr wyf yn hyderus y

2:19 p.m.

bydd y drysau yn agored ar 1 Ebrill.

Phil Williams: My question follows on from your point about the proportions of the Objective 1 budget allocated to the different priorities. After a meeting this morning, the total budget for potential projects under priority 2 alone—for competitive environment—has been increased by an extra £100 million. I know of no potential projects that will take up the whole of the seven-year budget. I am aware that some projects will not reach the starting point and some may not be fully acceptable, but I am concerned that we are committed to proportions that cannot be changed. Will it be possible to continue discussions on this division up until the submission of the document? Will it be possible to adjust the proportion—

Phil Williams: Mae fy nghwestiwn i yn dilyn ymlaen o'r pwynt a wnaethoch am y cyfrannau o gyllideb Amcan 1 a ddyrennir i'r gwahanol flaenoriaethau. Ar ôl cyfarfod y bore yma, mae cyfanswm y gyllideb ar gyfer prosiectau posibl dan flaenoriaeth 2 yn unig—ar gyfer amgylchedd cystadleuol—wedi'i gynyddu £100 miliwn yn ychwanegol. Ni wn am unrhyw brosiectau a fydd yn cael yr holl arian o'r gyllideb saith mlynedd. Yr wyf yn ymwybodol na fydd rhai prosiectau yn cyrraedd y man cychwyn ac efallai na fydd rhai yn gwbl dderbyniol, ond yr wyf yn pryderu ein bod wedi ymrwymo i gyfrannau na ellir eu newid. A fydd modd parhau â thrafodaethau am y rhaniad hwn hyd y cyflwynir y ddogfen? A fydd modd addasu'r gyfran—

The Presiding Officer: Order. How many questions do you have?

Y Llywydd: Trefn. Sawl cwestiwn sydd gennych?

Phil Williams: There are three parts to my question. I want to ask about the timetable for adjustment.

Phil Williams: Mae yna dair rhan i'm cwestiwn. Hoffwn ofyn am yr amserlen ar gyfer newid.

Rhodri Morgan: Very well.

Rhodri Morgan: O'r gorau.

Phil Williams: As a result of the negotiations with Europe, is it possible to adjust proportions before 1 April and when will be the first opportunity afterwards to make any major revision?

Phil Williams: Yn sgîl y trafodaethau gydag Ewrop, a oes modd newid y cyfrannau cyn 1 Ebrill a phryd fydd y cyfle nesaf ar ôl hynny i wneud unrhyw newidiadau sylweddol?

Rhodri Morgan: Negotiation with the European Commission over the next five months will involve bargaining as its views clash with ours on whether more should be spent on infrastructure and less on human resources or vice versa. However, the European Commission's bias is against mega projects that require £100 million expenditure. It wants micro-level, human scale, human resource oriented projects and is against spending £100 million on motorways or on a new port. To some extent, I feel that is also what the people of Wales want.

Rhodri Morgan: Bydd y trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd dros y pum mis nesaf yn golygu bargeinio wrth i'w safbwyntiau hwy wrthdaro â'n safbwyntiau ni ynghylch a ddylid gwario mwy ar seilwaith a llai ar adnoddau dynol neu fel arall. Fodd bynnag, mae tueddiad y Comisiwn Ewropeaidd yn erbyn prosiectau anferth a fydd yn gofyn am wariant o £100 miliwn. Mae ef am weld prosiectau sydd yn canolbwyntio ar adnoddau dynol, ar lefel fechan ac ar raddfa ddynol ac mae yn erbyn gwario £100 miliwn ar draffyrdd neu ar borthladd newydd. I ryw raddau, teimlaf mai dyma y mae ar bobl Cymru ei eisiau hefyd.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid

Questions to the Finance Secretary

Trafodaethau â'r Trysorlys Discussions with the Treasury

Q1 Janet Davies: Is the Finance Secretary engaged in discussions with the Treasury on a concordat? (OAQ1520VB)

C1 Janet Davies: A yw'r Ysgrifennydd Cyllid yn cynnal trafodaethau â'r Trysorlys ynghylch concordat? (OAQ1520VB)

The Finance Secretary (Edwina Hart): A draft concordat between the Assembly Cabinet and the Treasury is in preparation and will be published shortly.

Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart): Mae concordat drafft wrthi'n cael ei baratoi rhwng Cabinet y Cynulliad a'r Trysorlys ac fe'i cyhoeddir maes o law.

Janet Davies: Will Welsh people's desire for openness, transparency and accountability be met by that concordat?

Janet Davies: A fydd y concordat hwnnw yn bodloni awydd pobl Cymru am weithredu yn agored, yn onest ac yn atebol?

Edwina Hart: I hope so. The purpose of a concordat is to formalise and preserve good working relations with the Treasury and ensure that each party is aware of the other's requirements and that both are able to fulfil their responsibilities fully and effectively. I hope that the draft concordat will be published on the intranet and the internet shortly.

Edwina Hart: Yr wyf yn gobeithio. Pwrpas y concordat yw meithrin a chynnal perthynas waith dda gyda'r Trysorlys a sicrhau bod pob plaid yn ymwybodol o ofynion ei gilydd a bod pawb yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn llawn ac yn effeithiol. Gobeithiaf y bydd y concordat drafft yn cael ei gyhoeddi ar y fewnwyd a'r rhyngwyd yn fuan.

The Presiding Officer: Questions 2 and 3 have been transferred to the Secretary for Economic Development for answer. We therefore move on to question 4.

Y Llywydd: Mae cwestiynau 2 a 3 wedi'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd i'w hateb. Felly, fe symudwn ymlaen at gwestiwn 4.

Cost y Gwasanaeth Heddlu yn y Cynulliad Cost of the Police Service in the Assembly

Q4 Michael German: What is the nature and the cost of the police service provided in the Assembly and whose decision was it that this service be provided? (OAQ1533VB)

C4 Michael German: Beth yw natur a chost y gwasanaeth heddlu a ddarperir i'r Cynulliad a phenderfyniad pwy oedd darparu gwasanaeth o'r fath? (OAQ1533VB)

Edwina Hart: The responsibilities of the police unit are to prevent and detect crime and maintain public order within the Assembly building and the immediate area surrounding it. This helps the Assembly to discharge its duty of care to protect Members, staff and visitors, and provides reassurance to the public.

Edwina Hart: Cyfrifoldebau'r uned heddlu yw rhwystro a chanfod troseddau a chadw trefn gyhoeddus oddi mewn i adeilad y Cynulliad a'r man yn union o'i gwmpas. Mae hyn yn helpu'r Cynulliad i gyflawni ei ddyletswydd gofalu i amddiffyn Aelodau, staff ac ymwelwyr, ac mae'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd.

The Assembly's security policy, which was prepared earlier this year in conjunction with the Security Service, the police and staff at the Palace of Westminster, identified that dedicated police support was desirable.

Nodai polisi diogelwch y Cynulliad, a baratowyd yn gynharach eleni ar y cyd â'r Gwasanaeth Diogelwch, yr heddlu a'r staff ym Mhalas Westminster, bod cefnogaeth heddlu ymroddedig yn ddymunol. Ni

Agreement has not yet been reached with the police about the precise level of this support and the associated costs.

Michael German: I understand the difficulty of discussing security in a public domain. However, as we already have full-time security staff and there is a police station located just down the road in Butetown, would the Assembly Secretary be prepared to ensure that Party leaders are briefed on the security policy and are aware of the reasoning behind it and its full cost? That would enable us to make a decision in private about whether we are getting value for money.

Edwina Hart: I assure you that I will address the value for money of our security policy. I regard it as one of my primary public duties. Once the arrangements have been finalised, I will be happy to give the Assembly details of their cost. I am sure that the First Secretary will be happy to brief the Party leaders about the nature of the Assembly's security policy.

Helen Mary Jones: I hope that Edwina, as a woman politician, does not take this as too aggressive a question. Is the current level of police security adequate, are the officers doing a good job and is the spending of additional resources in this area unnecessary? Should there be any change of personnel, would you also consider requesting the presence of women officers in the building?

Edwina Hart: I agree with your point about women officers. I am satisfied with the policing situation at the moment but it is a matter that is constantly up for review and it needs to be monitored. I am conscious that we are close physically to everyone in the building and that Members and visitors alike need to feel secure. Incidents in schools and hospitals show that we are also vulnerable in the Assembly. I take note of your point about women officers. Perhaps a senior officer in charge would be nice.

David Davies: I am tempted to make a point of order after those sexist comments about

chytunwyd gyda'r heddlu eto am yr union lefel o gefnogaeth nac am y costau cysylltiedig.

Michael German: Yr wyf yn deall pa mor anodd yw trafod diogelwch mewn man cyhoeddus. Fodd bynnag, gan fod gennym ni eisoes staff diogelwch amser llawn a bod yna orsaf heddlu wedi'i lleoli i lawr y ffordd yn Butetown, a fyddai'r Ysgrifennydd Cynulliad yn barod i sicrhau bod arweinwyr y Pleidiau yn cael manylion am y polisi diogelwch gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ymresymu y tu ôl iddo a'i gost yn llawn? Byddai hyn yn ein galluogi i benderfynu mewn preifatrwydd a ydym yn cael gwerth am ein harian.

Edwina Hart: Yr wyf yn eich sicrhau y byddaf yn delio â gwerth am arian ein polisi diogelwch. Yr wyf yn ei ystyried fel un o'm prif ddyletswyddau cyhoeddus. Ar ôl cwblhau'r trefniadau, buaswn yn hapus i roi manylion y gost i'r Cynulliad. Yr wyf yn sicr y bydd y Prif Ysgrifennydd yn barod i esbonio natur polisi diogelwch y Cynulliad wrth arweinyddion y Pleidiau.

Helen Mary Jones: Gobeithio na fydd Edwina, fel menyw mewn gwleidyddiaeth, yn cymryd y cwestiwn hwn fel un rhy ymosodol. A yw lefel diogelwch yr heddlu ar hyn o bryd yn ddigonol, a yw'r swyddogion yn gwneud gwaith da ac a yw gwario adnoddau ychwanegol yn y maes hwn yn ddiangen? Pe byddai yna unrhyw newid ymysg y personél, a fydddech yn ystyried gofyn am bresenoldeb menywod fel swyddogion yn yr adeilad?

Edwina Hart: Yr wyf yn cytuno â'ch pwynt am fenywod yn swyddogion. Yr wyf yn fodlon gyda'r sefyllfa blismona ar hyn o bryd ond mae'n fater sydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd a rhaid ei fonitro. Yr wyf yn ymwybodol ein bod yn gorfforol agos i bawb yn yr adeilad a bod yn rhaid i Aelodau ac ymwelwyr, fel ei gilydd, deimlo'n ddiogel. Dengys digwyddiadau mewn ysgolion ac ysbytai ein bod hefyd yn agored i niwed yn y Cynulliad. Yr wyf wedi cymryd nodyn o'ch pwynt am fenywod yn swyddogion. Efallai y byddai'n braf cael uwch swyddog i reoli.

David Davies: Yr wyf yn cael fy nhemtio i godi pwynt o drefn ar ôl y sylwadau

aggressive words from women. However, time is short. Does Edwina Hart welcome the presence of a highly professional police force in this building? Will she confirm that when the service level agreement is signed, police officers allocated to the Assembly full-time will be replaced in Cardiff police stations? Does she also agree that the majority of people would say that spending money on a highly professional police service is a far better use of taxpayers' money than spin doctors, special advisers, consultants and curtains that will not even close?

Edwina Hart: I concur with your comments about a highly professional police force. I am sure we all welcome the police presence and that we, and the public, feel secure as a result. However, responsibility for policing issues lies with the Home Office, not with me.

rhywiaethol hynny am eiriau ymosodol gan fenywod. Fodd bynnag, mae amser yn brin. A yw Edwina Hart yn croesawu presenoldeb heddlu tra phroffesiynol yn yr adeilad hwn? A yw hi'n barod i gadarnhau, pan lofnodir y cytundeb lefel gwasanaeth, y bydd yr heddlu a ddyrannwyd yn amser llawn i'r Cynulliad yn cael eu amnewid yng ngorsafodedd heddlu Caerdydd? A yw hi hefyd yn cytuno y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn dweud bod gwario arian ar wasanaeth heddlu tra phroffesiynol yn ffordd lawer gwell o ddefnyddio arian trethdalwyr nac ar sbinddoctoriaid, cynghorwyr arbennig, ymgynghorwyr a llenni nad ydynt yn cau hyd yn oed?

Edwina Hart: Yr wyf yn cytuno â'ch sylwadau am heddlu tra phroffesiynol. Yr wyf yn sicr ein bod ni oll yn croesawu presenoldeb yr heddlu a'n bod ni, a'r cyhoedd, yn teimlo'n ddiogel o'r herwydd. Fodd bynnag, cyfrifoldeb i'r Swyddfa Gartref, nid i mi, yw materion plismona.

Uned Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru Education Unit of the National Assembly for Wales

Q5 Jenny Randerson: How much money has been allocated in this current year to the education unit at the Assembly? (OAQ1534VB)

Edwina Hart: The current budget for the Public Information and Education Unit within the Office of the Presiding Officer for this financial year is £278,567. That includes staff costs.

Jenny Randerson: Raising awareness about the Assembly's work among the general public and young people is vital. At what stage are the plans for establishing a permanent education unit in the Pierhead building, or have those plans been abandoned?

Edwina Hart: I share your sentiments. Developing an education unit within the Assembly is important. Twenty-three schools have arranged to visit the Assembly already and the Presiding Officer has arranged for this Chamber to be used for a youth parliament in November. The development of a permanent education unit in the Pierhead

C5 Jenny Randerson: Faint o arian sydd wedi'i ddyrannu eleni i uned addysg y Cynulliad? (OAQ1534VB)

Edwina Hart: Mae'r gyllideb gyfredol ar gyfer yr Uned Addysg a Gwybodaeth Gyhoeddus o fewn Swyddfa'r Llywydd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn £278,567. Mae hyn yn cynnwys costau staff.

Jenny Randerson: Mae'n hollbwysig cynyddu ymwybyddiaeth o waith y Cynulliad ymysg y cyhoedd a phobl ifainc. Beth yw sefyllfa'r cynlluniau i sefydlu uned addysg barhaol yn adeilad Pen y Pier, neu a roddwyd y cynlluniau hynny o'r neilltu?

Edwina Hart: Yr wyf yn rhannu eich teimladau. Mae'n bwysig sefydlu uned addysg o fewn y Cynulliad. Mae tair ysgol ar hugain eisoes wedi trefnu i ymweld â'r Cynulliad ac mae'r Llywydd wedi trefnu i'r Siambr hon gael ei defnyddio ar gyfer senedd ieuenctid ym mis Tachwedd. Mae datblygu uned addysg barhaol yn adeilad Pen y Pier yn

building is an ongoing matter and I will send you more details in due course.

fater parhaus ac fe anfonaf ragor o fanylion atoch maes o law.

Cynog Dafis: Wrth ystyried yr angen i'r Cynulliad ddatblygu polisiau i Gymru sydd yn briodol ac yn wahanol, a fyddai Edwina Hart yn cytuno bod angen sicrhau yr adnoddau i weision sifil allu wneud y gwaith cefndir? Pe baem am symud oddi wrth gystadleuaeth rhwng ysgolion yng Nghymru, fe fyddai angen adolygu'r fformwla gyllido a'r system reolaeth i ysgolion yn lleol. Os nad oes adnoddau digonol o fewn y gwasanaeth sifil i wneud y math hwn o waith eisoes, a yw Edwina Hart yn cytuno y byddai'n briodol i gomisiynu a thalu am waith o'r tu allan er mwyn sicrhau bod y gwaith ymchwil yn cael ei wneud?

Cynog Dafis: Considering that the Assembly needs to develop appropriate and different policies for Wales, would Edwina Hart agree that we need to ensure that resources are available for civil servants to carry out the background work? If we wished to move away from competition between schools in Wales, we would need to review the funding formula and the system for the local management of schools. If there are insufficient resources within the civil service to do this work, does Edwina Hart agree that it would be appropriate to commission and pay for external work to ensure that the research work is carried out?

2:29 p.m.

Edwina Hart: If I fully understand the question, Cynog, it evolves a stage onward from the issue of the education unit within the Assembly. If this unit is established, it needs to be properly resourced. We also need to have adequate information, not simply the information that people receive when they come here. The use of school packs to explain the working of the Assembly is a matter for my Cabinet colleagues who deal with pre and post-16 education.

Edwina Hart: Os wyf fi'n deall y cwestiwn yn iawn, Cynog, mae'n ymdrin â cham ymlaen o fater yr uned addysg o fewn y Cynulliad. Os sefydlir yr uned hon, rhaid sicrhau adnoddau priodol ar ei chyfer. Rhaid inni hefyd gael gwybodaeth ddigonol, nid dim ond y wybodaeth y mae pobl yn ei chael pan ddônt yma. Mater i'm cydweithwyr yn y Cabinet, sydd yn delio ag addysg cyn ac ôl-16, yw defnyddio pecynnau ysgolion i esbonio sut y mae'r Cynulliad yn gweithio.

Cyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Health and Social Services Budget

Q6 Nick Bourne: What action does Edwina Hart propose to take to increase the health and social services budget in view of the decision of the Health and Social Services Committee to seek an increased budget? (OAQ1495VB)

C6 Nick Bourne: Pa gamau y bwriada Edwina Hart eu cymryd i gynyddu cyllideb y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yng ngoleuni penderfyniad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i geisio cynnydd yn eu cyllideb? (OAQ1495VB)

Edwina Hart: In accordance with Standing Order No. 19, I shall be presenting a preliminary draft budget to the Assembly in November.

Edwina Hart: Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 19, byddaf yn cyflwyno cyllideb ddrafft dros dro i'r Cynulliad ym mis Tachwedd.

Nick Bourne: When you do so, will you take account of the serious recurrent deficit of £50 million in the health and social services budget which prompted the vote—which the Conservatives were part of—to increase this budget? Will you also bear in mind the threat

Nick Bourne: Pan wnewch hynny, wnewch chi roi ystyriaeth i'r diffygion ariannol rheolaidd, difrifol o £50 miliwn yng nghyllideb y gwasanaethau cymdeithasol a symbylodd y bleidlais—yr oedd y Ceidwadwyr yn rhan ohoni—i gynyddu'r

to hospital services posed by the statement of the former Under-Secretary of State for Wales, Jon Owen Jones? Will you also take account of the problems of growing waiting lists? Cardiac waiting lists in the Bro Taf Health Authority and Iechyd Morgannwg Health have increased by over 40 per cent in the last year.

Edwina Hart: Thank you for that long list of questions, Nick. I will pop on my white doctor's jacket to answer them and I will not take any bullying tactics from Mr Cairns. The Assembly's budget has all been allocated for the next two years. There is no general reserve that can be drawn upon to supplement existing baselines. Therefore, all increases must be offset by savings elsewhere in the budget. Alun Michael and Jane Hutt have already confirmed that we are not planning a programme of closing or downgrading hospitals. We inherited a national health service with considerable financial problems in some areas and we are working together with the NHS and key stakeholders to turn this around. I am sure that the Assembly does not want me to reiterate all the issues regarding the £1 billion received over three years as a result of the comprehensive spending review or the further packages of £2.49 million announced by Jane Hutt on 21 July.

I have received representations from the Committees on the budgeting process, including a full letter from Kirsty Williams on behalf of the Health and Social Services Committee. I will consider all these views when preparing the budget package.

David Lloyd: A yw Edwina Hart yn derbyn fod llai o arian y pen yn cael ei wario ar iechyd yn y wlad hon o'i gymharu â gwledydd gorllewinol cyfatebol?

Edwina Hart: I am not an expert in the field of spending per capita on health and I have not researched in that area. However, I would be happy to look at the figures and reply to you privately, Dai.

gyllideb hon? A wnewch chi hefyd gadw mewn cof y bygythiad y mae datganiad cyn Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru, Jon Owen Jones, yn ei beri i wasanaethau ysbytai? A wnewch chi hefyd roi ystyriaeth i broblemau'r rhestrau aros cynyddol? Mae'r rhestrau aros ar gyfer triniaeth y galon yn Awdurdod Iechyd Bro Taf a Iechyd Morgannwg Health wedi cynyddu dros 40 y cant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Edwina Hart: Diolch i chi am y rhestr faith hon o gwestiynau, Nick. Fe wnaaf fi daro fy nghôt meddyg amdanaf i'w hateb ac ni wnaaf dderbyn unrhyw dactegau bwllo oddi wrth Mr Cairns. Mae holl gyllideb y Cynulliad wedi'i dyrannu ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Nid oes yna unrhyw arian cyffredinol wrth gefn y gellir ei ddefnyddio i ychwanegu at y llinellau sylfaen presennol. Felly, mae'n rhaid gwrthbwyso pob cynnydd gydag arbedion mewn rhannau eraill o'r gyllideb. Mae Alun Michael a Jane Hutt eisoes wedi cadarnhau nad ydym yn cynllunio rhaglen o gau ac israddio ysbytai. Fe wnaethom etifeddu gwasanaeth iechyd gwladol gyda phroblemau ariannol dybryd mewn rhai ardaloedd ac yr ydym yn gweithio gyda'r NHS a budd-dalwyr allweddol i wydroi'r sefyllfa. Yr wyf yn sicr nad yw'r Cynulliad am imi ailadrodd yr holl faterion ynghylch y £1 biliwn a dderbyniwyd dros dair blynedd yn sgîl yr adolygiad cynhwysfawr o wariant na'r pecynnau eraill o £2.49 miliwn a gyhoeddwyd gan Jane Hutt ar 21 Gorffennaf.

Yr wyf wedi derbyn sylwadau gan y Pwyllgorau ar y broses gyllidebu, gan gynnwys llythyr llawn gan Kirsty Williams ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddaf yn ystyried yr holl safbwyntiau hyn wrth baratoi pecyn y gyllideb.

David Lloyd: Does Edwina Hart accept that less money per capita is spent on health in this country compared to corresponding western countries?

Edwina Hart: Nid wyf yn arbenigo ym maes gwariant y pen ar iechyd ac nid wyf wedi ymchwilio i'r maes hwn. Fodd bynnag, buaswn yn falch o edrych ar y ffigurau a'ch ateb yn breifat, Dai.

Mick Bates: What action are you taking to redress the balance so that rural areas receive their fair share of the health budget? It has been shown recently that millions of pounds are being lost as distributing money on a pro rata basis works in favour of urban areas and against rural areas.

Edwina Hart: I have not seen any proof or paperwork on what you have illustrated and I would be delighted to have a look at it. My responsibility as Finance Secretary is to take into account the views expressed by Committees and what my Cabinet colleagues discuss with me when preparing the budget round. The details of the health budget and its distribution are matters for the Secretary for Health and Social Services.

Mick Bates: Pa gamau ydych yn eu cymryd i unioni'r cydbwysedd fel bod ardaloedd gwledig yn cael eu cyfran deg o'r gyllideb iechyd? Dangoswyd yn ddiweddar bod miliynau o bunnoedd yn cael eu colli wrth i ddosbarthu arian ar sail pro rata weithio o blaid ardaloedd trefol ac yn erbyn ardaloedd gwledig.

Edwina Hart: Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth na gwaith papur ar yr hyn a ddisgrifiwch a byddwn wrth fy modd yn cael golwg ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i fel Ysgrifennydd Cyllid yw rhoi ystyriaeth i'r safbwyntiau a fynegir gan Bwyllgorau a'r hyn y mae fy nghydweithwyr yn y Cabinet yn ei drafod gyda mi wrth baratoi cylch y gyllideb. Materion i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r gyllideb iechyd a'r modd y'i dosberthir.

Datganiad ar Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd Statement on the Cardiff Bay Development Corporation

The First Secretary: Earlier this year, I made a parliamentary statement in my capacity as Secretary of State for Wales on the succession arrangements to the dissolution of the Cardiff Bay Development Corporation. I should now report to the Assembly on how those arrangements have been followed through.

Three main policy objectives have been pursued in abolishing this Assembly sponsored body. First, the period of special attention which south Cardiff needed and got during the lifetime of the Corporation is now coming to an end. The Cardiff Bay area can no longer expect a special priority in the allocation of public funds. We are committed to promoting prosperity in all of the most disadvantaged areas of Wales.

Secondly, we must ensure that the achievements of the last 13 years are secured and that the area continues to develop. This is in the best interests of the Cardiff area and the whole of Wales. Having invested in the barrage and other infrastructure, we must now ensure that they are properly managed and exploited, in the best sense of the word, to maximise their potential benefits.

Y Prif Ysgrifennydd: Yn gynharach eleni, cyflwynais ddatganiad seneddol yn rhinwedd fy swydd fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y trefniadau yn sgîl diddymu Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Yn awr fe adroddaf i'r Cynulliad ar sut y bwriwyd ymlaen â'r trefniadau hyn.

Aethpwyd ar drywydd tri phrif amcan polisi i ddiddymu'r corff hwn a noddwyd gan y Cynulliad. Yn gyntaf, mae'r cyfnod o sylw arbennig yr oedd ei angen ar dde Caerdydd—ac fe'i cafodd—tra pery'r Gorfforaeth yn awr yn dod i ben. Ni all ardal Bae Caerdydd, mwyach, ddisgwyl cael blaenoriaeth arbennig wrth ddyrannu arian cyhoeddus. Yr ydym wedi ymrwymo i hybu ffyniant ym mhob un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Yn ail, rhaid inni sicrhau bod yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y 13 blynedd ddiwethaf yn cael ei ddiogelu a bod yr ardal yn parhau i ddatblygu. Mae hyn er budd ardal Caerdydd a Chymru gyfan. Ar ôl buddsoddi yn yr argae a seilwaith arall, mae'n rhaid inni yn awr sicrhau eu bod yn cael eu rheoli yn gywir a'n bod yn ymelwa arnynt, yn ystyr gorau'r gair, er mwyn sicrhau y ceir y manteision gorau posibl yn eu sgîl.

Thirdly, I am keen to substitute proper local democratic control for rule by quango and return responsibility for the regeneration of our capital city and adjoining areas of the Vale of Glamorgan, to the local authorities.

In March I announced that the Vale of Glamorgan and Cardiff county councils would take over responsibility for several CBDC assets in their areas and that the Welsh Development Agency would take over the other assets. That means a return to the situation which applies in the rest of Wales. I also highlighted the need for a harbour authority for the barrage and Bay. I am delighted to confirm that earlier this week I signed a memorandum of understanding under which Cardiff City and County Council will become the Cardiff Bay's harbour authority. That means that the local authority will own, manage and develop the potential of the barrage, the inland bay, the outer harbour and related assets. A copy of the memorandum is in the Assembly Library.

The legal process of dissolution will require three Assembly local orders. The Secretary for Economic Development will bring those forward as soon as possible. Individual assets and liabilities are expected to transfer predominantly by voluntary agreements made under section 165 of the Local Government, Planning and Land Act 1980.

There will be contractual and ongoing funding commitments to meet. We cannot avoid the fact that the Assembly has inherited commitments as a result of Cardiff Bay Development Corporation's existence. We have inherited commitments in many policy areas. The unusual nature of the freshwater flows into the bay means that management costs will be high. The memorandum of understanding on the harbour authority confirms that in accepting the statutory and non-statutory functions, Cardiff City and County Council will not be expected to meet additional costs from its own resources. Transitional funding will also be required on a temporary basis to finish certain key tasks which cannot be completed within the remaining lifetime of the

Yn drydydd, yr wyf yn awyddus i reolaeth ddemocrataidd leol briodol ddisodli rheolaeth y cwangos gan roi'r cyfrifoldeb am adfywio ein prifddinas ac ardaloedd cyfagos Bro Morgannwg, yn ôl i'r awdurdodau lleol.

Ym mis Mawrth cyhoeddais y byddai cynghorau sir Bro Morgannwg a Chaerdydd yn cymryd y cyfrifoldeb dros nifer o asedau Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn eu hardaloedd ac y byddai Awdurdod Datblygu Cymru yn gyfrifol am yr asedau eraill. Golyga hynny y byddem yn dychwelyd i'r un sefyllfa ag a geir yng ngweddill Cymru. Tynnais sylw hefyd at yr angen am awdurdod harbwr i ofalu am yr argae a'r Bae. Mae'n bleser gennyf gadarnhau fy mod, yn gynharach yr wythnos hon, wedi llofnodi sydd yn golygu y bydd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd yn dod yn awdurdod harbwr ar Fae Caerdydd. Golyga hynny y bydd yr awdurdod lleol yn berchen, yn rheoli ac yn datblygu potensial yr argae, rhan fewnol y bae, rhan allanol yr harbwr a'r asedau cysylltiedig. Mae copi o'r memorandwm ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad.

Bydd y broses ddiddymu gyfreithiol angen tri gorchymyn lleol gan y Cynulliad. Bydd yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd yn cyflwyno'r rhain cyn gynted â phosibl. Disgwylir i rwymedigaethau ac asedau unigol gael eu trosglwyddo'n bennaf drwy gytundebau gwirfoddol a wnaethpwyd dan adran 165 Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980.

Fe fydd yna ymrwymïadau cytundebol ac ariannol parhaus i'w talu. Ni allwn osgoi'r ffaith bod y Cynulliad wedi etifeddu ymrwymïadau yn sgîl bodolaeth Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Yr ydym wedi etifeddu ymrwymïadau mewn sawl maes polisi. Mae natur anarferol y dŵr croyw sydd yn llifo i'r bae yn golygu y bydd y costau rheoli'n uchel. Mae'r memorandwm dealltwriaeth ar awdurdod yr harbwr yn cadarnhau, wrth dderbyn y swyddogaethau statudol ac anstatudol, na ddisgwylir i Gyngor Dinas a Sir Caerdydd dalu'r costau ychwanegol o'i adnoddau ei hun. Bydd cyllid trosiannol hefyd yn ofynnol, dros dro, i gwblhau rhai tasgau allweddol penodol, na ellir eu cwblhau yn ystod gweddill oes y Gorfforaeth. Ni ellir mesur yr holl gostau a'r

Corporation. Not all of these costs and liabilities can be quantified but the Assembly is already aware that the indicative budgetary provision for 2000-01 onwards is £23.9 million a year. Our objective remains to contain expenditure within this baseline.

The succession plan that I announced in March is supplemented by the memorandum of understanding and provides a democratic, viable and cost effective way of consolidating the advantages brought to Wales as a result of the redevelopment of south Cardiff. A copy of this statement and the memorandum of understanding will be available in the Library and will be published on the intranet. Rhodri Morgan will ensure that there are regular reports to the Economic Development Committee on the wind-up's progress.

Owen John Thomas: In light of the developments in the Bay and elsewhere in Cardiff, do you agree that Cardiff's potential to develop as a tourist magnet will be given a boost if the local authority leaders were to begin to take the city's capital status seriously and rid themselves of the autocratic and selfish image they have displayed in recent years towards their employees, local ratepayers and the rest of Wales?

The First Secretary: Image does not always match reality as all of us in public life know. I have, on occasion, expected debates that are appropriate to Cardiff City and County Council's debating chamber to be imported into this one. However, I was not expecting you to do that. We must leave the local authority to consider its image. Whatever criticisms might be made, the county council has shown great leadership in promoting the tourism in the city, not just in recent years but over the 25 years that I have been involved in the promotion of tourism. We have made great strides since the time when it was regarded as quite amusing to think of tourists coming to Cardiff. The present Cardiff and City and County Council has demonstrated, in its support for the Rugby World Cup, events in Cardiff Bay and many other initiatives, that it wants to promote tourism in Cardiff. The capital city is the gateway to tourism in any country. That is

rhwymedigaethau hyn ond mae'r Cynulliad eisoes yn ymwybodol bod y ddarpariaeth gyllidebol fynegol ar gyfer 2000-01 ymlaen yn £23.9 miliwn y flwyddyn. Ein hamcan o hyd yw cadw gwariant o fewn y llinell sylfaen hon.

Ategir y cynllun olynol a gyhoeddais ym mis Mawrth gan y memorandum cydddealltwriaeth ac mae'n cynnig ffordd ddemocrataidd, ymarferol a chost-effeithiol o gadarnhau'r manteision a gaiff Cymru yn sgîl ailddatblygu de Caerdydd. Bydd copi o'r datganiad hwn ynghyd â'r memorandum cydddealltwriaeth ar gael yn y Llyfrgell a chaiff ei gyhoeddi ar y fewnrwyd. Bydd Rhodri Morgan yn sicrhau y cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar sut mae'r broses ddiddymu'n mynd rhagddi.

Owen John Thomas: Yng ngoleuni'r datblygiadau yn y Bae ac mewn mannau eraill yng Nghaerdydd, a ydych chi'n cytuno y rhoddid hwb i botensial Caerdydd i ddenu twristiaid pe byddai arweinyddion yr awdurdod lleol yn dechrau cymryd y statws prifddinas o ddifrif a chael gwared â'r ddelwedd ormesol a hunanol y maent wedi'i dangos yn y blynyddoedd diwethaf tuag at eu gweithwyr, talwyr trethi lleol a gweddill Cymru?

Y Prif Ysgrifennydd: Nid yw delwedd bob amser yn cyfateb i realiti fel y mae pob un ohonom sydd yn byw bywyd cyhoeddus yn ei wybod. Yr wyf fi, ambell dro, wedi disgwyl i ddadleuon sydd yn briodol i siambr ddadleuon Cyngor Dinas a Sir Caerdydd gael eu cynnwys yn y Siambr hon. Fodd bynnag, nid oeddwn yn disgwyl ichi wneud hynny. Rhaid inni adael yr awdurdod lleol i ystyried ei ddelwedd. Waeth beth yw'r feirniadaeth, mae'r cyngor sir wedi dangos arweinyddiaeth gref wrth hyrwyddo twristiaeth yn y ddinas, nid yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn unig, ond dros y 25 mlynedd yr wyf fi wedi bod yn ymwneud â hybu twristiaeth. Yr ydym wedi datblygu llawer iawn ers yr adeg pan yr oedd meddwl am dwristiaid yn dod i Gaerdydd yn fater digon digrif. Mae'r Cyngor presennol wedi dangos, drwy ei gefnogaeth i Gwpan Rygbi'r Byd, digwyddiadau ym Mae Caerdydd a llawer o fentrau eraill, ei fod am hybu

true of London and foreign capitals. The development of Cardiff Bay has given a greater interest to the Welsh capital. As the capital, Cardiff has a responsibility to look at the interests of the country as a whole and set its interests in the context of the whole of Wales. I trust that it will continue to do so.

twristiaeth yng Nghaerdydd. Y brifddinas yw'r porth ar gyfer twristiaeth ym mhob gwlad. Mae hyn yn wir am Lundain a phrifddinasoedd dramor. Drwy ddatblygu Bae Caerdydd, enynnwyd mwy o ddiddordeb ym mhrifddinas Cymru. Fel y brifddinas, mae gan Gaerdydd y cyfrifoldeb i edrych ar fuddiannau'r wlad gyfan a gosod ei buddiannau yng nghyd-destun Cymru gyfan. Yr wyf yn hyderus y bydd yn dal i wneud hynny.

2:39 p.m.

David Melding: I am sure that the First Secretary will join me in congratulating the board of Cardiff Bay Development Corporation, particularly the chairman, Sir Geoffrey Inkin. A splendid job has been done and we have seen the second regeneration of our capital city, which matches that of our Victorian and Edwardian forebears. It is important that the rest of the job is done now. There is a wonderful infrastructure but not everything is complete yet as we can see from our offices. Much development still needs to be done. It is vital that we have a partnership approach and involve the business community in the Cardiff Bay area in particular.

David Melding: Yr wyf yn sicr y bydd y Prif Ysgrifennydd am ymuno â mi i longyfarch bwrdd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, yn arbennig y cadeirydd, Syr Geoffrey Inkin. Gwnaethpwyd gwaith ardderchog ac yr ydym wedi gweld ein prifddinas yn cael ei hadfywio am yr ail waith, ac mae hyn yn cydfynd â'n hynafiaid Fictoraidd ac Edwardaidd. Mae'n bwysig bod gweddill y gwaith yn cael ei wneud yn awr. Mae yna seilwaith ardderchog ond nid yw popeth wedi'i gwblhau eto fel y gallwn weld o'n swyddfeydd. Mae llawer o waith datblygu i'w wneud o hyd. Mae'n hollbwysig ein bod yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cynnwys y gymuned fusnes yn ardal Bae Caerdydd yn arbennig.

The First Secretary: I certainly pay tribute to everybody who has put their efforts into this, including Sir Geoffrey Inkin and the deputy chairman, Lord Brooks. One reason for the success of the CBDC compared with other development corporations is the wisdom of the then Secretary of State, Nicholas Edwards. He started the process by talking to the Labour leaders of both local authorities and involving them fully on the board of the CBDC.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn bendant yn talu teyrnged i bawb sydd wedi ymdrechu'n galed gyda hyn, gan gynnwys Syr Geoffrey Inkin a'r dirprwy gadeirydd, Arglwydd Brooks. Un rheswm am lwyddiant Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd o'i chymharu â chorfforaethau datblygu eraill yw doethineb yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd, Nicholas Edwards. Ef ddechreuodd y broses drwy siarad gydag arweinwyr Llafur y ddau awdurdod lleol a'u cynnwys hwy yn llawn ar fwrdd y Gorfforaeth.

To be frank, the local authority could have done the job. The local authorities at that time, Cardiff and South Glamorgan, did an excellent job of redeveloping the centre of Cardiff. I suppose I should declare an interest as I was involved in that process, as were one or two other people in the Chamber. That demonstrates what can be done when a local authority works in partnership with the private sector. Cardiff has a record of

I fod yn onest, gallai'r awdurdod lleol fod wedi gwneud y gwaith. Gwnaeth yr awdurdodau lleol ar y pryd, Caerdydd a De Morgannwg, waith ardderchog i ailddatblygu canol Caerdydd. Mae'n debyg y dylwn ddatgan buddiant gan fy mod yn gysylltiedig â'r broses honno, fel ag yr oedd un neu ddau arall yn y Siambr. Mae hyn yn dangos beth y gellir ei wneud pan fydd awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector

working in partnership, and this city and Wales can be proud of that.

I suspect that you were trying to get a slightly different message across, but I will not be drawn into criticising those who worked with the model given to us by the Government at the time. People across party lines worked on that and the redevelopment of south Cardiff has been a considerable success as a result. Everybody who played a part has cause to feel justifiably proud, particularly those who, as you indicated, had leadership roles.

Jenny Randerson: I am glad that you have decided to return the barrage and the lake to local democratic control. Whatever the style of that democracy, it is important that it is in the hands of the local authority. It is a pity that CBDC and the council have not always been able to work together harmoniously. Nevertheless, the Corporation has made a major contribution to the modern image of Cardiff. We must recognise that.

On the barrage and its control, you may be aware that I was one of the people who had grave concerns about the idea of the barrage at its inception. I am not alone in this Chamber in this, but I will not mention any names. My continuing concern is the importance of realising that it will cost a considerable amount of money to ensure that the water quality is acceptable. The barrage must make Cardiff a tourist attraction rather than somewhere that tourists do not want to visit. I seek assurance from you that there will be ongoing adequate funding to deal with water quality and the various measures involved, and that the five year review will not be used as an opportunity to downgrade funding to the local authority.

The First Secretary: For most of the period, the relationship between CBDC and the local authorities has been a model of good practice. However, I agree that relationships have been bad during more recent periods. That is a matter of regret. It is one of those situations that has gone past the point where there is

preifat. Mae gan Gaerdydd record o weithio mewn partneriaeth, a gall y ddinas hon a Chymru fod yn falch o hynny.

Yr wyf yn amau eich bod yn ceisio cyfleu neges ychydig yn wahanol, ond ni wnaf ganiatáu i neb fy arwain i feirniadu'r rheini a weithiodd gyda'r model a roddwyd inni gan y Llywodraeth ar y pryd. Bu i bobl ar draws ffiniau'r pleidiau weithio ar hyn ac, o ganlyniad, mae de Caerdydd wedi cael ei ailddatblygu yn llwyddiannus iawn. Mae gan bawb a oedd â rhan i'w chwarae achos i deimlo'n falch, yn enwedig y rheini, fel y cyfeirioch chi atynt, a oedd â rolau arweiniol.

Jenny Randerson: Yr wyf yn falch eich bod wedi penderfynu rhoi'r rheolaeth dros yr argae a'r llyn i ddwylo democrataidd lleol. Ar ba bynnag ffurf y mae'r ddemocratiaeth honno, mae'n bwysig ei bod yn nwylo'r awdurdod lleol. Mae'n drueni nad yw Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a'r cyngor wastad wedi gallu gweithio gyda'i gilydd yn gytûn. Fodd bynnag, mae'r Gorfforaeth wedi gwneud cyfraniad pwysig at ddelwedd fodern Caerdydd. Rhaid inni gydnabod hynny.

Wrth sôn am yr argae a'i reoli, efallai eich bod yn ymwybodol fy mod i'n un o'r bobl hynny a oedd â phryderon dybryd am y syniad o'r argae a'i ddechreuad. Nid myfi yw'r unig un yn y Siambr hon, ond ni chrybwyllaf unrhyw enwau. Fy mhryder i o hyd yw'r pwysigrwydd o sylweddoli y bydd yn costio swm sylweddol o arian i sicrhau bod ansawdd y dŵr yn dderbyniol. Rhaid i'r argae wneud Caerdydd yn atyniad i dwristiaid yn hytrach nag yn rhywle na fydd twristiaid eisiau ymweld ag ef. Yr wyf yn gofyn am sicrwydd gennych y bydd yna arian digonol parhaus i ddelio ag ansawdd y dŵr a'r amrywiol fesurau y mae hyn yn ei olygu, ac na chaiff yr arolwg pum mlynedd ei ddefnyddio fel cyfle i israddio'r arian i'r awdurdod lleol.

Y Prif Ysgrifennydd: Am y rhan fwyaf o'r cyfnod, bu'r berthynas rhwng Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ac awdurdodau lleol yn fodel o ymarfer da. Fodd bynnag, yr wyf yn cytuno na chafwyd gystal perthynas yn ddiweddar. Mae hyn yn resyn gennyf fi. Mae'n un o'r sefyllfaoedd hynny sydd wedi

much purpose in apportioning blame. Over the last year, I have sought to persuade, cajole and, on occasions, insist that matters are reconciled in order to be able to get on with the job, meet the date for the wind-up and get arrangements in place.

I welcome your comments about bringing this back into the public sector. At the beginning I said that I wanted as many assets as possible to go either to the local authority or the Welsh Development Agency. The local authority has volunteered to undertake the harbour authority role. Otherwise, we would be setting up what most of us would regard as a quango, although I am not sure whether it would be technically. It is far preferable for the work to be done by the local authority. I share your view on that. It is important to get the water quality right. The argument about water quality and other issues has been bedeviled by optimism on one side and multiple pessimism on the other. If one factor is taken to the worst imaginable extreme and so is the next, you are faced with an extreme position. I can understand why those who were looking at the matter pessimistically did so because it was correct to test the likelihood of what could happen. I would like a review to consider the matter objectively, to look at what has happened and what is needed in the future so that we put neither too much nor too little money in to achieve the water quality that could turn the bay into the major attraction it is capable of being. We should not be too pessimistic. That would be to talk down the opportunity in the bay, and talk up the financial commitment. The commitment should be what is needed and no more although I accept that it should not be less than what is needed.

Sue Essex: Despite the achievements made by CBDC, I am pleased to know that we now have full democratic control in Cardiff. My colleagues and I have argued over the years for ground water protection for the most affected houses. I hope that Cardiff North will not be affected. If it is, we will have problems. Within the £23.9 million that you mentioned, could you tell me if any money is allocated for the running of any pumps that may be required for de-watering? Also, we

mynd heibio'r pwynt fel nad oes yna fawr o bwrpas mewn rhoi bai ar neb. Dros y flwyddyn ddiwethaf, yr wyf wedi ceisio darbwyllo, perswadio ac, ar adegau, mynnu bod yn rhaid cymodi er mwyn gallu bwrw ymlaen â'r gwaith, cadw at y dyddiad ar gyfer cau'r bartneriaeth a sicrhau bod trefniadau yn eu lle.

Yr wyf yn croesawu eich sylwadau am ddwyn hyn yn ôl i'r sector cyhoeddus. Ar y dechrau dywedais fy mod eisiau gweld cymaint â phosib o asedau yn mynd naill ai i'r awdurdod lleol neu i Awdurdod Datblygu Cymru. Mae'r awdurdod lleol wedi gwirfoddoli i ymgymryd â rôl yr awdurdod harbwr. Fel arall, fe fyddem yn sefydlu'r hyn y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn ei alw yn gwango, er nad wyf yn sicr a fyddai hynny'n dechnegol gywir. Mae'n llawer gwell i'r awdurdod lleol wneud y gwaith. Yr wyf yn rhannu eich barn am hynny. Mae'n bwysig sicrhau ansawdd y dŵr. Mae'r ddadl am ansawdd dŵr a materion eraill wedi cael eu drysu gan optimistiaeth ar un llaw a phesimistiaeth amryfal ar y llaw arall. Os eir ag un ffactor i'r eithaf un ac felly'r ffactor nesaf, fe'ch wynebier gan sefyllfa eithafol. Gallaf ddeall pam fod y rheini a edrychai ar y mater gyda phesimistiaeth yn gwneud hynny gan ei bod hi'n gywir profi tebygolrwydd yr hyn a allai ddigwydd. Hoffwn weld arolwg i ystyried y mater yn wrthrychol, i edrych ar beth ddigwyddodd a beth sydd yn angenrheidiol i'r dyfodol fel nad ydym yn rhoi gormod na rhy ychydig o arian i sicrhau ansawdd y dŵr a allai fodloni potensial y bae fel atyniad pwysig. Ni ddylem fod yn rhy besimistaidd. Dibrisio'r cyfle sydd yn y bae fyddai hynny a phwysleisio'r ymrwymiad ariannol. Ni ddylai'r ymrwymiad fod yn fwy na'r hyn sydd ei angen er fy mod yn derbyn na ddylai fod yn llai na'r hyn sydd ei angen.

Sue Essex: Er gwaethaf cyflawniadau Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, yr wyf yn falch o wybod bod gennym yn awr reolaeth ddemocrataidd lawn yng Nghaerdydd. Mae fy nghydweithwyr a minnau wedi dadlau dros y blynyddoedd am warchodaeth dŵr daear i'r rhan fwyaf o'r tai y mae hyn yn effeithio arnynt. Gobeithiaf na fydd hyn yn effeithio ar Ogledd Caerdydd. Os gwnaiff, fe fydd gennym broblemau. Oddi mewn i'r £23.9 miliwn y gwnaethoch ei

hope compensation would not be necessary but if it were, would it be provided for within that sum?

The First Secretary: I note Sue's declaration of non-interest at the beginning. I believe that those issues are dealt with but I cannot answer precisely. I would be happy to write to you and other Cardiff Members to respond to any query about those arrangements. The Cardiff Bay Development Corporation was established by a previous Government. We have inherited obligations, including statutory obligations such as protection against the possible or predicted levels of ground water increase. Protection was written into the legislation and is required under previous agreements. We have an obligation to ensure that that requirement is carried on to successor bodies. I am happy to give further particulars in relation to your specific question separately.

Janet Davies: I welcome the transfer of functions and responsibility to the local authority and I accept that you do not want to set up any more quangos but I have some misgivings about the transfer of the harbour authority functions to Cardiff City and County Council. Those functions will cost nearly £24 million this year and the cost will increase. When those functions are transferred to the Council we will not be able to monitor them as we would have been able to had the functions been transferred to a quango.

The First Secretary: The underwriting of legal obligations on transfer would be the same in transferring functions to another body such as a private limited company or a body established as a separate agency by the Assembly as in transferring functions to a local authority. You cannot avoid the obligations. It is preferable to transfer those obligations, and the opportunity to make something of the Cardiff Bay area to the local authority, which is democratically elected,

grybwyll, allwch chi ddweud wrthyf a oes unrhyw arian yn cael ei ddyrannu ar gyfer rhedeg unrhyw bympiau a allai fod yn ofynnol i sychu dŵr? Hefyd, yr ydym yn gobeithio na fydd iawndal yn ofynnol ond pe byddai, a fyddai'n cael ei gynnwys yn y swm hwnnw?

Y Prif Ysgrifennydd: Nodaf ddatganiad di-fuddiant Sue ar y dechrau. Credaf yr ymdrinnir â'r materion hyn ond ni allaf ateb yn union. Buaswn yn hapus i ysgrifennu atoch ac at Aelodau eraill Caerdydd i ateb unrhyw ymholiad am y trefniadau hynny. Sefydlwyd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd gan Lywodraeth flaenorol. Yr ydym wedi etifeddu rhwymedigaethau, gan gynnwys rhwymedigaethau statudol megis gwarchodaeth yn erbyn cynnydd posibl neu ragweledig mewn lefelau dŵr daear. Cafodd gwarchodaeth ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth ac mae'n ofynnol dan gytundebau blaenorol. Mae gennym rhwymedigaeth i sicrhau bod y gofyniad hwnnw yn cael ei drosglwyddo i'r cyrff olynol. Yr wyf yn barod i roi manylion pellach ynghylch eich cwestiwn penodol ar wahân.

Janet Davies: Yr wyf yn falch bod y swyddogaethau a'r cyfrifoldeb yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod lleol ac yr wyf yn derbyn nad ydych am sefydlu mwy o gwangos ond mae gennyf beth amheuaeth ynghylch trosglwyddo swyddogaethau'r awdurdod harbwr i Gyngor Dinas a Sir Caerdydd. Bydd y swyddogaethau hyn yn costio bron i £24 miliwn eleni a bydd y gost yn cynyddu. Pan drosglwyddir y swyddogaethau hyn i'r Cyngor ni fyddwn yn gallu eu monitro fel y gallem fod wedi pe bai'r swyddogaethau wedi cael eu trosglwyddo i gwango.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr un fyddai gwarant rhwymedigaethau cyfreithiol trosglwyddo wrth drosglwyddo swyddogaethau i unrhyw gorff arall megis cwmni cyfyngedig preifat neu gorff a sefydlwyd fel asiantaeth ar wahân gan y Cynulliad er mwyn trosglwyddo swyddogaethau i awdurdod lleol. Ni allwch osgoi'r rhwymedigaethau. Mae'n well trosglwyddo'r rhwymedigaethau hyn, a'r cyfle i wneud rhywbeth o ardal Bae Caerdydd, i'r awdurdod lleol, sydd yn cael ei

accountable and has the interests of its local people as the basic reason for its existence. I think most Members would prefer that to setting up a body that would only have harbour responsibilities and therefore have a narrow focus to its activities.

ethol yn ddemocrataidd, sydd yn atebol ac sydd â buddiannau'r bobl leol fel y rheswm sylfaenol dros ei fodolaeth. Yr wyf yn credu y byddai'n well gan y rhan fwyaf o Aelodau hynny na sefydlu corff a fyddai ond â chyfrifoldeb dros yr harbwr ac a fyddai, felly, â ffocws cul i'w weithgareddau.

2:49 p.m.

Val Feld: I hope you can understand what I am saying, as my voice is going.

Val Feld: Gobeithio y gallwch ddeall beth yr wyf yn ei ddweud, gan fy mod yn colli fy llais.

Michael German: Sorry, have I given you my cold?

Michael German: Mae'n ddrwg gen i, a wyf wedi rhoi fy annwyd i chi?

Val Feld: I know, Mike, somebody might question how close we have been in the Committee. *[Laughter.]*

Val Feld: Yr wyf yn gwybod, Mike, efallai y bydd rhywun yn holi pa mor agos y buom ni yn y Pwyllgor. *[Chwerthin.]*

Rhodri Morgan: Order. I feel a censure motion pending.

Rhodri Morgan: Trefn. Yr wyf yn teimlo bod cynnig o gerydd yn yr arfaeth.

Val Feld: I realise I sound like Mike did last week. I welcome the establishment of the harbour authority because it had been an issue of concern to a number of us. This needed to be sorted so that work could go on to get the water quality we need. As Chair of the Economic Development Committee I remind Alun that the Committee has been, and I imagine will continue to be, concerned about the open-ended nature of the financial commitment being made. We need to monitor that. However, as a Member for Swansea I take this opportunity to remind all of us about the considerable investment made in Cardiff and Cardiff Bay in comparison with the rest of Wales, and in particular, in comparison with our second great city, Swansea.

Val Feld: Yr wyf yn sylweddoli fy mod yn swnio fel ag yr oedd Mike yr wythnos diwethaf. Yr wyf yn croesawu sefydlu'r awdurdod harbwr gan ei fod wedi bod yn fater o bryder i nifer ohonom. Yr oedd yn rhaid ymdrin â hyn er mwyn bwrw ymlaen â gwaith i sicrhau'r ansawdd dŵr angenrheidiol. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd hoffwn atgoffa Alun y bu'r Pwyllgor yn bryderus ac, yr wyf yn dychmygu, y bydd yn dal yn bryderus am natur benagored yr ymrwymiad ariannol a wneir. Rhaid inni fonitro hynny. Fodd bynnag, fel Aelod dros Abertawe hoffwn achub ar y cyfle hwn i'n hatgoffa ni oll am y buddsoddiad sylweddol a wnaethpwyd yng Nghaerdydd a Bae Caerdydd o'i gymharu â gweddill Cymru, ac yn arbennig, o'i gymharu â'r ddinas agosaf ati o ran maint, Abertawe.

Rosemary Butler: What about Newport?

Rosemary Butler: Beth am Gasnewydd?

Val Feld: Come on, Newport is not a city yet. I hope that Cardiff will realise that this is an investment by the Assembly in the future of this bay and Cardiff. I am mindful too that the people of Cardiff were not enormously supportive of the Assembly in the referendum vote. I hope if we continue to make this investment that Cardiff will take on the real

Val Feld: Dewch yn eich blaen, nid yw Casnewydd yn ddinas eto. Gobeithiaf fod Caerdydd yn sylweddoli bod hyn yn fuddsoddiad gan y Cynulliad yn nyfodol y bae hwn ac yng Nghaerdydd. Yr wyf yn cofio hefyd nad oedd pobl Caerdydd yn gefnogol iawn i'r Cynulliad ym mhleidlais y refferendwm. Yr wyf yn gobeithio, os ydym

function of a capital of Wales and see itself as working for all of us.

The First Secretary: I am also pleased that the local authority has been willing to take on this role. The local authority was doubtful initially because it thought that it was being asked to take on an open-ended commitment and that we were shuffling off financial burdens on to it without offering accountability or protection. As a result of discussions with Russell Goodway, the leader of the authority, and among the members of the authority, a much more satisfactory outcome has been obtained. I pay tribute to the authority for recognising that its leadership of and responsibility for the capital city involves taking on that role. It is a positive development.

The Assembly is not taking on an open-ended financial commitment. Some elements of the commitments we retain are costed. Others cannot be costed but are not open-ended. We will only invest money where necessary to meet our obligations. Funding is needed to meet the obligations we have inherited as a result of the wind up of Cardiff Bay Development Corporation, given that that body is our creature.

I hope we can move away from negative competition between Swansea and Cardiff because I am impressed that both cities are on the move. There is a lot happening in Swansea, which is turning it into a much more positive city. It is making its own way and developing its own personality in a way that I greatly welcome. For instance, as Val knows, I supported the move of the Welsh Industrial and Maritime Museum to Swansea from Cardiff even though that meant it leaving my parliamentary constituency. That is because Swansea had earned that move by the commitment it has shown to the Swansea Maritime and Industrial Museum.

We need a strong and vibrant Cardiff and Swansea leading the areas around them and

yn parhau i wneud y buddsoddiad hwn, bod Caerdydd yn ymgymryd â'r swyddogaeth wirioneddol fel prifddinas Cymru gan ystyried ei hun yn brifddinas sydd yn gweithio drosom oll.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf innau hefyd yn falch bod yr awdurdod lleol wedi bod yn barod i ymgymryd â'r rôl hon. Yr oedd yr awdurdod lleol yn amheus i ddechrau gan ei fod yn credu y gofynnwyd iddo dderbyn ymrwymiad penagored a'n bod yn gwthio beichiau ariannol arno heb gynnig atebolrwydd na gwarchodaeth. Yn sgîl trafodaethau gyda Russell Goodway, arweinydd yr awdurdod, ac ymhlith aelodau'r awdurdod, cafwyd canlyniad llawer mwy boddhaol. Hoffwn dalu teyrnged i'r awdurdod am gydnabod bod ei arweiniad a'i gyfrifoldeb dros y brifddinas yn cynnwys ymgymryd â'r rôl honno. Mae'n ddatblygiad positif.

Nid yw'r Cynulliad yn derbyn ymrwymiad ariannol penagored. Pennwyd cost rhai o'r elfennau yr ydym yn eu dal. Mae eraill na ellir pennu cost iddynt ond nid ydynt yn benagored. Ni wnawn ond buddsoddi arian lle bo hynny'n angenrheidiol i fodloni ein rhwymedigaethau. Mae'n rhaid cael arian i fodloni'r rhwymedigaethau yr ydym wedi'u hetifeddu yn sgîl dod â Chorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben, o gofio mai ni greodd y corff hwnnw.

Yr wyf yn gobeithio y gallwn symud oddi wrth gystadleuaeth negyddol rhwng Abertawe a Chaerdydd gan fy mod yn falch iawn bod y ddwy ddinas yn datblygu. Mae yna lawer yn digwydd yn Abertawe, ac mae'n tyfu yn ddinas llawer mwy positif. Mae'n gwneud ei ffordd ei hun ac yn datblygu ei phersonoliaeth ei hun mewn ffordd yr wyf yn ei chroesawu'n fawr. Er enghraifft, fel y gŵyr Val, yr wyf yn cefnogi symud Amgueddfa Forol a Diwydiannol Cymru i Abertawe o Gaerdydd er bod hynny'n golygu ei bod yn gadael fy etholaeth seneddol. Y rheswm am hyn yw am fod Abertawe wedi haeddu hyn drwy'r ymrwymiad y mae wedi'i ddangos i Amgueddfa Forol a Diwydiannol Abertawe.

Rhaid inni weld Caerdydd ac Abertawe cryf ac egnïol yn arwain yr ardaloedd cyfagos a

the whole of Wales as well as a strong and vibrant Newport—before you glare at me Rosemary—and a strong and vibrant Wrexham and so on. Any other bids for excellent towns and cities in Wales? We want those towns and cities to develop. However, Cardiff and Swansea, in particular, must consider competition as something that is conducted with a smile rather than a growl. I hope we can encourage that.

However, I issue a note of caution because despite the investment's success in Cardiff Bay, high unemployment continues. There is extremely high unemployment in three Cardiff constituencies. I have not seen the latest figures but three were recently in the top ten for unemployment in Wales. The emphasis on moving things west and dealing with high unemployment problems throughout Wales is a priority for the Assembly. We should not forget that in places like Newport, Cardiff and Wrexham and north-east Wales, there are still areas of high unemployment that pay the price for old, run-down heavy industries.

Lorraine Barrett: I declare an interest because I worked for 12 years for Alun Michael in his capacity as the Member of Parliament for Cardiff South and Penarth. I know the work and commitment that he invested in the area's redevelopment, particularly the barrage. I am pleased and proud to be putting this question to you as First Secretary.

I ask for your assurance that you will do all you can to ensure that the remaining work will be given the necessary consideration. If we do not get the final stages right, all those years will be wasted. We will benefit from the council taking on this responsibility. It will be easier to knock on the leader of the council's door than that of a private company. We must still get people around the table and continue to make a concerted effort. The Cardiff Bay Business Forum raised concerns and I pay tribute to their work with yourself and Assembly Members over the years. Furthermore, the residents have put up with a great deal of disruption and I hope that

Chymru gyfan yn ogystal â Chasnewydd gryf ac egnïol—cyn ichi rythu arnaf Rosemary—Wrecsam gryf ac egnïol hefyd, ac yn y blaen. A oes yna unrhyw geisiadau eraill am drefi a dinasoedd ardderchog yng Nghymru? Yr ydym ni am weld y trefi a'r dinasoedd hyn yn datblygu. Fodd bynnag, rhaid i Gaerdydd ac Abertawe, yn arbennig, feddwl am gystadlu fel rhywbeth a wneir gan wenu yn hytrach na chan chwyrnu. Gobeithio y gallwn annog hynny.

Fodd bynnag, cyflwynaf nodyn o rybudd oherwydd, er gwaethaf llwyddiant y buddsoddiad ym Mae Caerdydd, mae diweithdra uchel i'w weld o hyd. Ceir diweithdra eithriadol o uchel mewn tair etholaeth yng Nghaerdydd. Nid wyf wedi gweld y ffigurau diweddaraf ond yr oedd tri ymysg y deg uchaf ar gyfer diweithdra yng Nghymru yn ddiweddar. Mae'r pwyslais ar symud pethau i'r gorllewin a delio â phroblemau diweithdra uchel ledled Cymru yn flaenoriaeth i'r Cynulliad. Rhaid inni beidio ag anghofio bod yna o hyd, mewn llefydd fel Casnewydd, Caerdydd a Wrecsam a gogledd ddwyrain Cymru, ardaloedd diweithdra uchel sydd yn talu'r pris am ddirywiad hen ddiwydiannau trwm.

Lorraine Barrett: Hoffwn ddatgan buddiant gan imi weithio am 12 mlynedd i Alun Michael yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Seneddol dros Dde Caerdydd a Phenarth. Yr wyf yn ymwybodol o'r gwaith a'r ymrwymiad a fuddsoddodd ef i ailddatblygu'r ardal, yn enwedig yr argae. Yr wyf yn falch o roi'r cwestiwn hwn i chi fel Prif Ysgrifennydd.

Hoffwn ofyn ichi am sierwydd y byddwch yn gwneud popeth o fewn eich gallu i sicrhau y rhoddir yr ystyriaeth angenrheidiol i'r gwaith sydd ar ôl. Os na chawn y camau olaf yn iawn, bydd yr holl flynyddoedd hyn wedi'u gwastraffu. Byddwn yn elwa o'r ffaith fod y cyngor yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn. Bydd yn haws cnocio ar ddrws arweinydd y cyngor nag ar ddrws cwmni preifat. Rhaid inni barhau i gael pobl o amgylch y bwrdd a pharhau i ymdrechu gyda'n gilydd. Bu i Fforwm Busnes Bae Caerdydd godi pryderon a hoffwn dalu teyrnged i'w gwaith gyda chi ac Aelodau'r Cynulliad dros y blynyddoedd. Ar ben hynny, tarfwyd llawer iawn ar y

they too can benefit from employment opportunities, given the high unemployment figures that you mentioned.

There is still a lot of work to be done and we must get it right. People are grumbling about south Cardiff getting all this money but it will benefit the whole of Wales if we ensure that everything is completed properly. Things like the access road to the barrage, tourist and boat user facilities and toilets must be tied up over the next few years.

The First Secretary: In my statement I recognised that work must be completed. There was pressure for extending the Cardiff Bay Development Corporation's life for another year to three years. I resisted that, because we must draw a line under it at the end of March next year, which was the proposed date. Although these projects need tidying up, their necessary completion has been noted in the agreements reached with the local authorities. Furthermore, it is important that Cardiff Bay becomes a driver for the whole of Wales. We will benefit from the visitor's impression of Wales as a country that is on the move. Many people from the Valleys work in Cardiff and Cardiff Bay. I pay tribute to one of Geoffrey Inkin's initiatives in creating an opportunity for unemployed people from the Cynon Valley to look at job opportunities here. It was right to do that because we must unite as a region and as Wales if we want to make these projects successful.

2.59 p.m.

Alison Halford: Point of order. I do not wish to embarrass you, Mr Presiding Officer, or to add to any division, but under Standing Order No. 1.9 you fulfilled your obligations today by ensuring that we stuck to our responsibilities specified in the Government of Wales Act 1998. You were courageous to comment that you would not accept or countenance what you regarded as sexist behaviour or aggression towards Members. We are a new body and have a great deal to learn. We all make mistakes and none of us would want to have anything to do with rude,

trigolion a gobeithiaf y gallant hwy hefyd elwa o gyfleoedd i gael gwaith, o gofio'r ffigurau diweithdra uchel a grybwyllwyd gennych.

Mae yna lawer o waith i'w wneud o hyd a rhaid inni wneud pethau'n iawn. Mae pobl yn grwgnach am fod de Caerdydd yn cael yr holl arian yma ond fe fydd yn sicrhau budd i Gymru gyfan os sicrhawn fod popeth yn cael ei gwblhau'n briodol. Rhaid i bethau, megis ffordd mynedfa'r argae, cyfleusterau i dwristiaid a phobl sydd yn defnyddio cychod a thoiledau gael eu cwblhau yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Y Prif Ysgrifennydd: Yn fy natganiad cydnabûm fod yn rhaid cwblhau'r gwaith. Yr oedd yna bwysau i ymestyn oes Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd am flwyddyn arall i dair blynedd. Gwrthodais hynny, gan fod yn rhaid inni ei ddiddymu ddiwedd Mawrth y flwyddyn nesaf, sef y dyddiad arfaethedig. Er bod angen tacluso'r prosiectau hyn, nodwyd bod yn rhaid eu cwblhau yn y cytundebau a wnaethpwyd gyda'r awdurdodau lleol. Ar ben hynny, mae'n bwysig bod Bae Caerdydd yn tyfu'n arweinydd ar gyfer Cymru gyfan. Byddwn yn elwa o argraff ymwelwyr o Gymru fel gwlad sydd yn datblygu. Mae llawer o bobl o'r cymoedd yn gweithio yng Nghaerdydd a Bae Caerdydd. Hoffwn dalu teyrnged i fentrau Geoffrey Inkin yn creu cyfle i bobl ddi-waith o Gwm Cynon chwilio am gyfleoedd i gael swyddi yma. Nid oedd dim o'i le mewn gwneud hynny gan fod yn rhaid inni uno fel rhanbarth ac fel Cymru os ydym am weld y prosiectau hyn yn llwyddo.

Alison Halford: Pwynt o drefn. Nid wyf eisiau codi cywilydd arnoch, Mr Llywydd, nac ar unrhyw adran, ond dan Reol Sefydlog Rhif 1.9 fe wnaethoch fodloni eich rhwymedigaethau heddiw drwy sicrhau ein bod yn glynw wrth ein cyfrifoldebau fel y'u nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998. Yr ydych yn ddewr yn dweud na fydddech yn derbyn nac yn cefnogi yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ymosodiad neu'n ymddygiad rhywiaethol tuag at Aelodau. Yr ydym yn gorff newydd ac mae gennym gryn dipyn i'w ddysgu. Mae pawb yn gwneud

sexist, aggressive, behaviour. Therefore, I thank you for those comments.

The Presiding Officer: I am not sure I would have called you if I had realised the exact nature of the point of order, but I am grateful to you.

Helen Mary Jones: Further to that point of order, may I state that women Members of my party have fortunately never experienced sexist behaviour in this Chamber nor would we countenance it from our own group.

The Presiding Officer: I am grateful for that comment. Within our rules of order there is a Protocol on Conduct in the Chamber. There is also a protocol on the relationship between Members and officials. It is important that we abide by those protocols in our debates at all times. I have not enforced them in this Chamber as rigorously as I could have done, as I believe that it is part of Members' own role to maintain self-control at all times and to regulate their own conduct. However, there are occasions when I have felt we have not been entirely within the spirit of these protocols, and I regard references which might put Assembly officials in a difficult position as outwith the code of conduct relating to the relationship between Members and officials. It is important that we always operate as a body corporate. Regardless of internal disagreements and rigorous political debate we should abide by our codes of conduct at all times.

Helen Mary Jones: Pwynt pellach o drefn. Ceisiaf, fel menyw wan ddiniwed, wneud y pwynt hwn trwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf yn y Siambr. Yr wyf wedi sylwi ei bod braidd yn anodd weithiau i Aelodau ddefnyddio'r Gymraeg gan ei bod yn ymddangos bod rhai Aelodau yn cael problem wrth ddefnyddio'r setiau clywed. Yr oedd un enghraifft pan fu'n rhaid i Edwina atal Cynog rhag siarad yn gynharach heddiw. Bu'n rhaid iddo aros nes iddi wisgo ei set clywed. Nid yw hyn yn deg ar yr Aelodau sydd yn dymuno siarad Cymraeg, yn enwedig y rhai ohonom sydd braidd yn nerfus wrth wneud hynny. Hoffwn dynnu eich sylw fel

camgymeriadau ac ni fyddai yr un ohonom eisiau dim i'w wneud ag ymddygiad digywilydd, rhywiaethol ac ymosodol. Felly, diolch ichi am y sylwadau hynny.

Y Llywydd: Nid wyf yn siŵr a fyddwn wedi eich galw pe bawn wedi deall union natur eich pwynt o drefn, ond yr wyf yn ddiolchgar ichi.

Helen Mary Jones: I ychwanegu at y pwynt hwnnw o drefn, a gaf i ddweud nad yw Aelodau benywaidd fy mhlaid i, yn ffodus, erioed wedi wynebu ymddygiad rhywiaethol yn y Siambr hon ac ni fyddem ychwaith yn caniatáu hynny gan ein grŵp ein hunain.

The Conservative Members believe in an adversarial structure for debate, although not the uncivil type of debate that one gets at Westminster. An adversarial structure is vital if Government proposals are to be considered properly. In general, all-party agreements fail to deliver well-thought through proposals and to engage the public's interest in the process of Government. Therefore, it is vital that the corporate plan is limited to general principles. It should be limited to setting the overall strategic policy framework within which both Government and opposition parties are free to develop more specific policies.

I will now discuss the policies on which we can all agree. Although we have our disagreements as parties, we all want the Assembly to succeed and to function in the best interests of Wales and its people. We must have a corporate plan that has a confident, successful outward-looking Wales as its vision. We all want a plan that encourages raising the gross domestic product per capita of Wales nearer to the British average. We want to see prosperity in all parts of Wales and agree that the prosperity gap that exists in Wales should be closed.

We should all support the revised priorities for action placed before us today. I will pick out parts of the text which particularly commend themselves to us. We approve of the reference to competitiveness. In today's competitive world, no nation or region can be successful unless it remains competitive. We also approve of the value placed on raising

Yn gyntaf, soniaf am safbwynt fy mhlaidd tuag at yr egwyddor o gynllun corfforaethol i'r Cynulliad. Gallai pob un o'r gwrthbleidiau gymeradwyo'r cynllun hwn. Yn ei haraith, pwysleisiodd Edwina Hart yn fawr y syniad y dylai pawb ohonom fod â pherchenogaeth dros y cynllun hwn. Yr wyf yn derbyn y gallai fod yn bosibl i Aelodau'r Cynulliad o bob plaid gytuno ar fframwaith polisi strategol cyffredinol. Fodd bynnag, rhaid inni ochel rhag creu sefyllfa lle na cheir unrhyw ddadl briodol a thrylwyr.

Mae'r Aelodau Ceidwadol yn credu mewn strwythur lle ceir dadlau rhwng safbwyntiau croes, er nad ydynt o blaid y math anfoesgar o ddadlau a geir yn San Steffan. Mae dadlau rhwng safbwyntiau croes yn hanfodol os yw cynigion y Llywodraeth i gael ystyriaeth briodol. Yn gyffredinol, nid yw cytundebau rhwng pob plaid yn llwyddo i lunio cynigion sydd ag ôl meddwl praff arnynt nac yn dal diddordeb y cyhoedd yn y broses lywodraethu. Felly, mae'n holl bwysig fod y cynllun corfforaethol yn cael ei gyfyngu i egwyddorion cyffredinol. Dylid ei gyfyngu i bennu'r fframwaith polisi strategol cyffredinol—fframwaith y bydd y Llywodraeth a'r gwrthbleidiau yn rhydd i ddatblygu polisiau mwy penodol oddi mewn iddo.

Yr wyf am drafod yn awr y polisiau y gallwn i gyd gytuno arnynt. Er ein bod yn anghytuno fel pleidiau, mae pawb ohonom am i'r Cynulliad lwyddo a gweithredu er budd pennaf Cymru a'i phobl. Rhaid inni gael cynllun corfforaethol sydd yn hoelio'i weledigaeth ar Gymru hyderus, lwyddiannus sydd yn edrych tuag allan. Yr ydym oll am gael cynllun sydd yn annog codi cynnyrch mewnwladol crynswth y pen Cymru yn nes at y cyfartaledd drwy Brydain. Yr ydym am weld ffyniant ym mhob rhan o Gymru a chytunwn fod angen cau'r bwlch sydd yn bodoli yng Nghymru o ran ffyniant.

Dylai pawb ohonom gefnogi'r blaenoriaethau gweithredu diwygiedig a roddwyd ger ein bron heddiw. Yr wyf am ddethol rhannau o'r testun sydd yn neilltuo o ddeniadol i ni. Yr ydym o blaid y cyfeiriad at fod yn gystadleuol. Yn y byd cystadleuol sydd ohoni heddiw, ni all unrhyw genedl na rhanbarth fod yn llwyddiannus onid yw'n para i fod yn

the international profile and influence of Wales. There is no doubt that the international dimension has played a major part in strengthening economic prospects in Wales over recent years, although this tends to be forgotten at times. I welcome the commitment to construct a sustainable future for agriculture with a modern rural economy, and I was pleased to hear the Finance Secretary raise that point.

There are references to creativity, entrepreneurship and financially sustainable organisations to promote quality and responsive healthcare. There is enough in this document to enable us to give a conditional welcome to the direction in which the Assembly's corporate plan is developing.

There are priorities on which more work needs to be done. The priority on 'better health and well being' should be expanded. As a rule, I approve of concise wording. However, the drafting is too concise on this priority and suggests that it is not as important as we would like it to be. There should be more specific reference to the national health service and the benefits that would flow from a closer relationship between healthcare and social services. However, these are merely drafting points.

Most work needs to be done on a priority committing us all to delivering value for money and productivity gains. That must be delivered in a budget which, in real terms, will be little more than a standstill budget for us. Unless we deliver value for money and productivity gains, we will not be able to produce the better Wales that we all want to see. I was pleased to hear the Finance Secretary make this the most forceful point in her speech. She must be in a position to use the corporate plan to drive home the value for money message at every opportunity.

I return to the extent to which a corporate plan can be taken forward with all-party agreement. I sound a note of caution about how far an agreed corporate plan can go. We

gystadleuol. Yr ydym hefyd o blaid y gwerth a roddir ar godi proffil a dylanwad rhyngwladol Cymru. Nid oes unrhyw amheuaeth bod y dimensiwn rhyngwladol wedi chwarae rhan fawr yn cryfhau rhagolygon economaidd Cymru dros y blynyddoedd diwethaf, er bod tuedd i anghofio hyn ar brydiau. Croesawaf yr ymrwymiad i lunio dyfodol cynaliadwy ar gyfer amaethyddiaeth gydag economi gwledig modern ac yr oeddwn yn falch o glywed yr Ysgrifennydd Cyllid yn codi'r pwynt hwn.

Cyfeirir at greadigrwydd, natur mentergaraidd a chyrff sydd yn gallu cynnal eu hunain yn ariannol i hybu gofal iechyd ymatebol o ansawdd dda. Mae digon yn y ddogfen hon i'n galluogi i groesawu'n amodol y cyfeiriad hwn y mae cynllun corfforaethol y Cynulliad yn datblygu ynddo.

Mae yna flaenoriaethau y mae angen gwneud mwy o waith arnynt. Dylid ymhelaethu ar y flaenoriaeth ar 'well iechyd a lles'. Fel arfer, yr wyf o blaid geirio'n gryno. Fodd bynnag, mae'r drafftio yn rhy gryno ar y flaenoriaeth hon ac yn awgrymu nad yw mor bwysig ag yr hoffem ni iddi fod. Dylid cyfeirio'n fwy penodol at y gwasanaeth iechyd gwladol a'r manteision a fyddai'n llifo o berthynas agosach rhwng gofal iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain ond pwyntiau drafftio.

Mae angen gweithio fwyaf ar flaenoriaeth sydd yn ein rhwymo ni oll i roi gwerth am arian ac enillion cynhyrchiant. Rhaid cyflawni hynny mewn cyllideb na fydd, mewn termau real, yn fawr mwy na chyllideb sefyll yn stond inni. Oni bai ein bod yn sicrhau gwerth am arian ac enillion cynhyrchiant, ni fyddwn yn gallu cynhyrchu'r Gymru well y mae pawb ohonom am ei gweld. Yr oeddwn yn falch mai hwn oedd y pwynt mwyaf egniol yn araith yr Ysgrifennydd Cyllid. Rhaid iddi fod mewn sefyllfa i ddefnyddio'r cynllun corfforaethol i dynnu sylw at y neges gwerth am arian ar bob cyfle posibl.

Trof eto i ystyried i ba raddau y gellir symud cynllun corfforaethol yn ei flaen gyda'r holl bleidiau'n cytuno arno. Seiniaf nodyn o rybudd am ba mor bell y gall cynllun

are an opposition party and we take our responsibility to provide opposition seriously. Sometimes we have been the only opposition party in the Assembly. If a corporate plan moves away from general principles to specific principles or budgets, we will soon find items on which we do not agree and cannot support. As soon as we start dealing with specific budgets we will undoubtedly start taking our own policy line. We will then find that we cannot sign up to the overall corporate plan because too much is being included in it, including items with which we do not agree.

We may want a stronger budgetary focus on the rural or the healthcare budget. We may want individual targets to be set for the Cabinet as a whole and for individual Assembly Secretaries. We may want different mechanisms, as Dafydd Wigley mentioned, to turn the fine words in the overall strategic planning framework into delivered policies. We may disagree on some of those mechanisms. However, in today's debate the Finance Secretary has invited the Assembly to note the main messages that emerge from the consultation on a 'A Better Wales' and to endorse the revisions made in 'Priorities for Action'. We are prepared to do that.

Peter Black: This is a welcome opportunity to debate this document and the responses to it from organisations from all over Wales. I particularly welcome the inclusive way that the Finance Secretary has dealt with this matter, and my response to that is to keep my comments as positive and constructive as possible.

I start by contrasting the process by which this matter is being dealt with now with the way a similar consultation was dealt with last year. In many ways, the previous consultation broke new ground for Wales. However, the difference today is that the existence of the National Assembly for Wales has allowed for open debate of the responses and of our priorities. This has made the consultation process more meaningful and it is a testament

corfforaethol y cytunir arno fynd. Yr ydym mewn gwrthblaid ac yr ydym yn cymryd ein cyfrifoldeb i fod yn wrthblaid o ddifrif. Ar adegau, ni yw'r unig wrthblaid a welwyd yn y Cynulliad. Os yw cynllun corfforaethol yn symud oddi wrth egwyddorion cyffredinol at egwyddorion neu gyllidebau penodol, buan y gwelwn ni eitemau na allwn ni gytuno arnynt neu na allwn eu cefnogi. Cyn gynted ag y dechreuwn ddelio â chyllidebau penodol yr ydym yn siŵr o gadw at ein trywydd polisi ein hunain. Fe welwn wedyn na allwn gymeradwyo'r cynllun corfforaethol cyffredinol am fod gormod yn cael ei gynnwys ynddo, gan gynnwys eitemau nad ydym yn cytuno â hwy.

Efallai y byddwn am weld ffocws cyllidebol cryfach ar y gyllideb wledig neu'r gyllideb gofal iechyd. Efallai y byddwn am osod targedau unigol i'r Cabinet yn ei gyfanrwydd ac i Ysgrifenyddion y Cynulliad yn unigol. Efallai y byddwn am weld mecanweithiau gwahanol, fel y soniodd Dafydd Wigley, i droi'r geiriau aruchel yn y fframwaith cynllunio strategol cyffredinol yn bolisiau sydd yn cael eu gwireddu. Efallai y byddwn yn anghytuno ar rai o'r mecanweithiau hynny. Fodd bynnag, yn y ddadl heddiw mae'r Ysgrifennydd Cyllid wedi gwahodd y Cynulliad i nodi'r prif negeseuon sydd yn deillio o'r ymgynghori ar 'Gwell Cymru' ac i gymeradwyo'r newidiadau a wnaethpwyd i'r 'Blaenoriaethau Gweithredu'. Yr ydym yn barod i wneud hynny.

Peter Black: Mae hwn yn gyfle i'w groesawu i drafod y ddogfen hon a'r ymatebion iddi gan gyrff o bob rhan o Gymru. Croesawaf yn arbennig y ffordd gynhwysol y mae'r Ysgrifennydd Cyllid wedi delio â'r mater hwn, a'm hymateb i hynny yw cadw fy sylwadau mor bositif ac adeiladol â phosibl.

Dechreuaf drwy wrthgyferbynnu'r broses sydd yn cael ei defnyddio i ddelio â'r mater hwn yn awr gyda'r ffordd y cynhaliwyd ymgynghoriad tebyg y llynedd. Mewn llawer ffordd, torrwyd tir newydd yng Nghymru gyda'r ymgynghoriad blaenorol. Fodd bynnag, y gwahaniaeth heddiw yw bod bodolaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn caniatáu inni gael trafodaeth agored ar yr ymatebion a'n blaenoriaethau ni. Mae hyn yn

to the need for this Assembly and to how it has changed the way we are governed.

We are told that the working document we have been asked to note is a step towards putting together a budget which reflects the priorities contained in it. Therefore, I want to highlight the issues and priorities that should be reflected in the budget. In its response to the consultation document, the Welsh Local Government Association stated that the Assembly had limited ambitions for the school and community education sector when compared with what is really needed to raise standards. Like the WLGA, the Liberal Democrats place reducing class sizes beyond key stage 1 and improving school buildings as a high priority for the Assembly. For us, these matters are key tests to show that we can make a difference.

A specific focus must be directed towards reducing waiting times in the NHS. That is a resource issue. As part of that, we must work in a more holistic way through local health groups. We must ensure that social service departments are adequately resourced to relieve the pressure on local health services and enable more people to live in the community rather than in an institution.

Adequate and high quality housing also has an important part to play. The huge backlog of repairs across Wales must be tackled and the move to find a solution in the council house sector through stock transfer is largely welcome. However, that solution poses its own problems for the Assembly's budget not least in resolving the unpaid debt which will be left once sales of stock are complete. This policy must also be carried out within a process of community regeneration and we must also find solutions for private housing.

I understand that this document stands within the cross-cutting themes of sustainable development and social inclusion and I applaud the efforts made to reflect these themes in the revised priorities. However,

golygu bod mwy o ystyr i'r broses ymgynghori ac mae'n tystio i'r angen am y Cynulliad hwn a sut y mae wedi newid y ffordd y cawn ein llywodraethu.

Dywedwyd wrthym mai cam yw'r ddogfen waith y gofynnwyd inni ei nodi tuag at lunio cyllideb sydd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ynddi. Felly, yr wyf am dynnu sylw at faterion a blaenoriaethau y dylid eu hadlewyrchu yn y gyllideb. Yn ei hymateb i'r ddogfen ymgynghorol, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mai uchelgeisiau cyfyng sydd gan y Cynulliad i'r sector ysgolion ac addysg gymunedol o'u cymharu â'r hyn sydd ei angen mewn gwirionedd i godi safonau. Fel CLILC, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gweld lleihau maint dosbarthiadau tu hwnt i gyfnod allweddol 1 a gwella adeiladau ysgolion fel blaenoriaeth uchel i'r Cynulliad. I ni, mae'r materion hyn yn allweddol o ran dangos a allwn ni wneud gwahaniaeth.

Rhaid canolbwyntio'n benodol ar leihau amserau aros yn yr NHS. Mater sydd yn ymwneud ag adnoddau yw hynny. Fel rhan o hynny, rhaid inni weithio mewn ffordd fwy cyfannol drwy grwpiau iechyd lleol. Rhaid inni sicrhau bod gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol adnoddau digonol i liniaru'r pwysau ar wasanaethau iechyd lleol a galluogi mwy o bobl i fwy yn y gymuned yn hytrach na mewn sefydliad.

Mae gan dai digonol o ansawdd uchel hefyd ran bwysig i'w chwarae. Rhaid mynd i'r afael â'r swmp enfawr o waith trwsio sydd wedi cronni ledled Cymru ac mae'r symudiad i ganfod ateb yn y sector tai cyngor drwy drosglwyddo stoc i'w groesawu ar y cyfan. Fodd bynnag, daw hynny â'i broblemau ei hun i gyllideb y Cynulliad—nid y lleiaf ohonynt fydd datrys problem y dyledion heb eu talu a fydd yn aros unwaith y bydd y gwerthiannau stoc wedi eu cwblhau. Rhaid rhoi'r polisi hwn ar waith o fewn proses o adfywio cymunedau a rhaid hefyd inni ganfod atebion o ran tai preifat.

Deallaf fod y ddogfen hon yn dod o fewn themâu trawsbynciol datblygu cynaliadwy a chynhwysedd cymdeithasol a chymeradwyaf yr ymdrechion a wnaethpwyd i adlewyrchu'r themâu hyn yn y blaenoriaethau diwygiedig.

there are several priorities where improvement can be made in this regard. In the section on 'better opportunities for learning' sustainable development can be reflected in the curriculum by educating pupils in lifestyle choices. A sustainable transport system is referred to in priority 14. That is crucial to social inclusion and sustainable development. The pursuit of sustainability in transport is a key policy in terms of Objective 1 as well as in the way the Assembly shapes its own budget on transport.

Fodd bynnag, mae yna sawl blaenoriaeth lle gellid gwella yn y cyswllt hwn. Yn yr adran ar 'well cyfleoedd dysgu' gellir adlewyrchu datblygu cynaliadwy yn y cwricwlwm drwy ddysgu disgyblion am y dewisiadau o ran ffordd o fyw. Cyfeirir at system drafnidiaeth gynaliadwy ym mlaenoriaeth 14. Mae hynny'n hollbwysig i gynhwysedd cymdeithasol a datblygu cynaliadwy. Mae gwneud trafnidiaeth yn gynaliadwy yn bolisi allweddol o safbwynt Amcan 1 yn ogystal â'r ffordd y mae'r Cynulliad yn llunio ei gyllideb ei hun ar drafnidiaeth.

3.39 p.m.

I also welcome the commitment on introducing entrepreneurship as a subject on the national curriculum. It is a shame that this was not accepted yesterday as part of the single programme document. Perhaps this is an example of day-to-day management, when we are against something one day and for it the next. Clearly, we need more joined-up government.

Croesawaf hefyd yr ymrwymiad i gyflwyno entrepreneuriaeth fel pwnc yn y cwricwlwm cenedlaethol. Mae'n drueni na chafodd hyn ei dderbyn ddoe fel rhan o'r ddogfen raglennu sengl. Efallai fod hyn yn enghraifft o reoli o ddydd i ddydd, pan ydym yn erbyn rhywbeth un diwrnod ac o'i blaid y diwrnod wedyn. Yn amlwg, mae angen llywodraeth sydd yn cydgyssylltu'n well arnom.

Priority 13 talks about developing confident communities. It is an important theme and one that should be strengthened to outline the need to develop adequate youth facilities, to recognise the important role of the voluntary sector and volunteers, and to improve support for communities. We should consider our priorities in terms of their impact on communities and how they can strengthen those communities and make them more self-reliant.

Mae blaenoriaeth 13 yn sôn am ddatblygu cymunedau hyderus. Mae'n thema bwysig ac yn un y dylid ei hatgyfnerthu i amlinellu yr angen i ddatblygu cyfleusterau ieuencid digonol, i gydnabod rôl bwysig y sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr, ac i wella'r gefnogaeth i gymunedau. Dylem ystyried ein blaenoriaethau o ran eu heffaith ar gymunedau a sut y gallant gryfhau'r cymunedau hynny a'u gwneud yn fwy hunan-gynhaliol.

Priority 12 aims to achieve high standards in the management of our environment. There is an attempt to extend this priority to cover waste management, recycling and biodiversity. The wording is flat. As well as managing our environment, we should refer to quality of life. We should mention biodiversity, which is promoted in schemes such as Tir Gofal, and refer to the recycling and reduction of waste as objectives with workable targets.

Nod blaenoriaeth 12 yw cyrraedd safonau uchel o ran rheoli ein hamgylchedd. Gwneir ymgais i ymestyn y flaenoriaeth hon i gynnwys rheoli gwastraff, ailgylchu a bioamrywiaeth. Mae'r geiriad yn ddi-fflach. Yn ogystal â rheoli ein hamgylchedd, dylem gyfeirio at ansawdd bywyd. Dylem sôn am fioamrywiaeth, a hyrwyddir mewn cynlluniau fel Tir Gofal, a chyfeirio at ailgylchu a chynhyrchu llai o wastraff fel amcanion gyda thargedau ymarferol ynghlwm wrthynt.

We should refer to equal opportunities more explicitly in the priorities and not simply, as now, included in an explanatory note under Best Value. We must strengthen the section

Dylem gyfeirio at gyfle cyfartal yn fwy penodol yn y blaenoriaethau, nid dim ond eu cynnwys mewn nodyn esboniadol dan Werth Gorau fel a wneir ar hyn o bryd. Rhaid inni

on Best Value to outline our promotion of the principles of Best Value in local government and among the Assembly sponsored public bodies.

We have placed much store on partnership in this Assembly, which should also be an important theme in this document. We should continue to work in partnership with a wide range of bodies to ensure that services are delivered at the most appropriate level. Often that will be through local government, the voluntary sector or other agencies. Whatever the level, the service must be responsive to changes in demand and expectations.

The partnership with local government is particularly important in service delivery terms. The Welsh Local Government Association has highlighted the idea of policy agreements between the Assembly and local government. These would identify shared objectives and targets to be pursued by councils and in return, local government would have the discretion to prioritise its expenditure in support of those targets. That would be a shift in the way central Government has pursued its policies at local level, but it would be a welcome one and one that should be explored further.

Once this plan is agreed we must ensure that all the parties sign up to it. I refer particularly to Assembly sponsored public bodies, but also to the UK Government. Our ambitions for Wales must be resourced and we must look to the Chancellor of the Exchequer for those resources. Let us hope that he agrees with us and that when he comes to review his own plans, Wales features largely in them.

Richard Edwards: I am surprised to be called so early in the debate as a humble back bencher. I welcome the fact that there is a strategic plan. Those of us who campaigned for devolution lamented the lack of any strategic vision or direction for Wales in the past. Providing that strategic focus and addressing the chronic democratic deficit that has accrued in Wales over the past 20 years,

gryfhau'r adran ar Werth Gorau i amlinellu ein gwaith yn hyrwyddo egwyddorion Gwerth Gorau mewn llywodraeth leol ac ymysg cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

Yr ydym wedi rhoi pwys mawr ar bartneriaeth yn y Cynulliad hwn, a dylai fod yn thema bwysig yn y ddogfen hon hefyd. Dylem barhau i weithio mewn partneriaeth gydag ystod eang o gyrff i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno ar y lefel fwyaf priodol. Yn aml, drwy lywodraeth leol, y sector gwirfoddol neu asiantaethau eraill y bydd hynny. Beth bynnag fo'r lefel, rhaid i'r gwasanaeth allu ymateb i newidiadau yn y galw a'r disgwyliadau.

Mae'r bartneriaeth gyda llywodraeth leol yn neilltuo o bwysig yn nhermau cyflwyno gwasanaethau. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi tynnu sylw at y syniad o gytundebau polisi rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol. Byddai'r rhain yn nodi cyd-amcanion a thargedau i gynghorau fynd ar eu trywydd ac, yn ei thro, byddai gan lywodraeth leol y rhyddid i flaenoriaethu ei gwariant yn unol â'r targedau hynny. Byddai hynny'n newid yn y ffordd y mae Llywodraeth ganolog wedi dilyn ei pholisïau ar lefel leol, ond byddai'n newid i'w groesawu ac yn un y dylid ymchwilio ymhellach iddo.

Unwaith y cytunir ar y cynllun hwn rhaid inni sicrhau bod pob plaid yn rhoi ei phwysau y tu ôl iddo. Cyfeirïaf yn enwedig at gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, ond hefyd at Lywodraeth y DU. Rhaid wrth adnoddau i wireddu ein huchelgaïs i Gymru a rhaid inni droi at Ganghellor y Trysorlys i gael yr adnoddau hynny. Gobeithiwn ei fod yn cytuno â ni a, phan ddaw i adolygu ei gynlluniau ei hun, y bydd i Gymru le amlwg ynddynt.

Richard Edwards: Fel aelod o'r fainc gefn yr wyf yn synnu cael fy ngalw mor gynnar yn y ddadl. Croesawaf y ffaith bod yna gynllun strategol. Yr oedd y rheini ohonom a fu'n ymgyrchu o blaid datganoli yn gresynu ynglŷn â'r diffyg gweledigaeth neu gyfeiriad strategol i Gymru yn y gorffennol. Mae cynnig y ffocws strategol hwnnw a mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd cronig sydd

is fundamental to the Assembly's work. The corporate plan is a long-term strategy that presents an intention list rather than a wish list, in an upbeat and ambitious manner. We want to generate more prosperity, to tackle inequality and to engage all the people and communities of Wales in active, participatory citizenship. It is a vision that is forward-looking but rooted—and I agree with Dafydd Wigley—in what are distinctive Welsh values of community, co-operation and interdependence.

I have a few comments about some details in the revised list of priorities. I hope they will be accepted as constructive comments.

Point one, on a better, stronger economy, refers to having a greater emphasis on small and medium-sized enterprises and developing them. That is crucial. That sector has been neglected by the WDA and by political masters in the past. However, this point does refer to diversity, which implies a range of inward investment as well as indigenous development, and we still need inward investors in Wales. As someone who represents a west Wales constituency, Preseli Pembrokeshire, we need a better spread so that not all inward investment is on the English border. That ties in with point four which discusses upping Wales's international profile.

To move onto better opportunities for learning, in light of the ETAG proposals there should be more mention of a co-ordinated and integrated approach. Also, if these points are listed in order of priority then point seven should perhaps be accorded top priority. There seems to be no mention of promoting education in the community, for example in non-educational establishments, through out of school initiatives or in the workplace. That is a serious omission.

On the better quality of life priority, we are

wedi cronni yng Nghymru dros yr 20 mlynedd ddiwethaf yn ganolog i waith y Cynulliad. Strategaeth hirdymor yw'r cynllun corfforaethol sydd yn cyflwyno rhestr fwriadau yn hytrach na rhestr ddymuniadau, a hynny mewn modd calonnog ac uchelgeisiol. Yr ydym am ysgogi mwy o ffyniant, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chynnwys holl bobl a chymunedau Cymru mewn dinasyddiaeth fyw, gyfranogol. Mae'n weledigaeth sydd yn edrych tua'r dyfodol ond ac iddi wreiddiau—a chytunaf â Dafydd Wigley—yn y gwerthoedd nodweddiadol Gymreig o gymuned, cydweithredu a chyd-dibyniaeth.

Mae gennyf ychydig sylwadau am rai o'r manylion yn y rhestr flaenoriaethau ddiwygiedig. Gobeithiaf y cânt eu derbyn fel sylwadau adeiladol.

Mae pwynt un ar well economi, a hwnnw'n economi cryfach, yn cyfeirio at roi mwy o bwyslais ar fentrau bach a chanolig eu maint a'u datblygu. Mae hyn yn hollbwysig. Mae'r sector hwnnw wedi ei esgeuluso gan Awdurdod Datblygu Cymru a chan feistri gwleidyddol yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae'r pwynt hwn yn cyfeirio at amrywiaeth, sydd yn awgrymu ystod o fewnfuddsoddi yn ogystal â datblygu brodorol, ac mae angen mewnfuddsoddwyr arnom yng Nghymru o hyd. Fel rhywun sydd yn cynrychioli etholaeth yng ngorllewin Cymru, Preseli Sir Benfro, mae angen inni ledaenu'r mewnfuddsoddi yn well fel nad yw i gyd yn digwydd ar y ffin â Lloegr. Mae hynny'n cyd-fynd â phwynt pedwar sydd yn trafod codi proffil rhyngwladol Cymru.

I symud ymlaen at well cyfleoedd dysgu, yn wyneb cynigion y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant, dylid sôn mwy am batrwm gweithredu cyd-drefnedig ac integredig. Hefyd, os yw'r pwyntiau hyn wedi eu rhestru yn nhrefn eu blaenoriaeth efallai y dylid rhoi'r flaenoriaeth uchaf i bwynt saith. Nid ymddengys bod unrhyw sôn o gwbl am hyrwyddo addysg yn y gymuned, er enghraifft, drwy sefydliadau ar wahân i rai addysgol, drwy gynlluniau tu allan i'r ysgol neu yn y gweithle. Mae hwn yn ddiffyg difrifol.

O ran y flaenoriaeth i wella ansawdd bywyd,

again discussing strategy, co-ordination and integration. The term 'integration' is curiously omitted in a community context. That is, all the relevant stakeholders, to coin a phrase, working together within the community. It is not only transport that must be integrated, we need co-ordination between people and within communities.

Point 15 is a serious one which refers to extending access to an awareness of the Welsh language, our culture, heritage and sporting opportunities. It should be possible in a multi-cultural Wales that respects its cultural diversity to add 'and other cultures' after 'our culture'. I am sure we can do that.

To end on a more negative note, we are six months into the Assembly's existence and all that is noted on better, simpler government is that that priority is 'to be developed'. Perhaps that should be at the forefront of the strategy. Having said that, and after the fiasco yesterday, we may not have developed it very well yet. A point that must be made, which the other parties seem to have forgotten is that the Labour Party delivered devolution for Wales. They did so to promote inclusive multi-party politics. The Assembly has a fairer voting system introduced by the Labour Party from a position of strength against its own vested interest. Examine your consciences when you produce a fiasco like yesterday's where censure motions are abused and old-style politicking reveals itself, bringing the Assembly into disrepute.

3:49 p.m.

Gareth Jones: Sut y byddai Richard Edwards yn diffinio ffiasgo? Bu nifer o ffiasgos. Pa ffiasgo y sonia amdani pan gyfeiria at ddoe? Ai'r ffiasgo a greodd Christine Gwyther?

Richard Edwards: That intervention says it all. The fiasco is the completely bogus rubbish that has been manufactured by the opposition parties over the last month and longer, all trying to outbid each other.

yr ydym eto yn trafod strategaeth, cyd-drefnu ac integreiddio. Mae'r term 'integreiddio' wedi ei adael allan yn rhyfedd iawn mewn cyd-destun cymunedol. Hynny yw, yr holl fuddianwyr perthnasol, mewn ffordd o siarad, yn gweithio gyda'i gilydd o fewn y gymuned. Nid dim ond trafndiaeth y mae'n rhaid ei integreiddio, mae angen cyd-drefnu rhwng pobl ac o fewn cymunedau.

Mae pwynt 15 yn un pwysig sydd yn cyfeirio at alluogi mwy o bobl i ddod yn ymwybodol o'r iaith Gymraeg, ein diwylliant, ein hetifeddiaeth a chyfleoedd chwaraeon. Mewn Cymru aml-ddiwylliannol sydd yn parchu ei hamrywiaeth ddiwylliannol, dylai fod yn bosibl ychwanegu 'a diwylliannau eraill' ar ôl 'ein diwylliant'. Yr wyf yn siŵr y gallwn wneud hynny.

I orffen ar nodyn mwy negyddol, mae'r Cynulliad wedi bodoli ers chwe mis a'r cyfan a ddywedir am well a symlach llywodraeth yw bod y flaenoriaeth honno 'i gael ei datblygu'. Efallai y dylai hynny fod ym mhen blaen y strategaeth. Wedi dweud hynny, ac ar ôl ffiasgo ddoe, efallai nad ydym wedi ei datblygu yn dda iawn eto. Pwynt y mae'n rhaid ei wneud, y mae'r pleidiau eraill wedi ei anghofio yn ôl pob tebyg, yw i'r Blaid Lafur dod â datganoli i Gymru. Gwnaethant hynny er mwyn hyrwyddo gwleidyddiaeth gynhwysol ambleidiol. Mae gan y Cynulliad system bleidleisio decach a gyflwynwyd gan y Blaid Lafur o safle o nerth, yn groes i'w buddiannau ei hun. Chwiliwch eich cydwybod wrth greu ffiasgo fel un ddoe, lle mae cynigion o gerydd yn cael eu camddefnyddio a'r hen wleidyddia yn dod i'r amlwg, gan ddwyn anfri ar y Cynulliad.

Gareth Jones: How would Richard Edwards define a fiasco? There have been several fiascos. Which fiasco is he talking about when he refers to yesterday? Was it the fiasco that Christine Gwyther created?

Richard Edwards: Mae'r cyfraniad yna yn dweud y cyfan. Y ffiasgo yw'r dwli hollol ffug sydd wedi ei ddyfeisio gan y gwerthbleidiau dros y mis diwethaf a mwy, pob un ohonynt yn ceisio rhagori ar y llall.

The Presiding Officer: Order. That is not relevant to a debate on the corporate plan and I do not want to revisit yesterday.

Richard Edwards: The intervention was not relevant to the corporate plan either. As an institution we have a lot of developing to do.

Cynog Dafis: Gwnaf rai sylwadau cyffredinol yn wyneb y ffaith inni gael trafferth i gael gwybod beth oedd union ystyr cael dadl ar y cynllun corfforaethol tan ddechrau'r wythnos hon.

Yn gyntaf, y cwestiwn cyllid. Mae'r papur ymgynghorol 'Gwell Cymru' yn ailadrodd yr hen fyth bod Cymru yn cael borgen hael dros ben gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Y geiriau yw:

'Mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn dangos fod gwariant cyhoeddus...ar wariant cyffredinol adnabyddadwy y Llywodraeth yng Nghymru ryw 18 y cant yn uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig.'

Rhan yn unig o'r stori yw'r gwario cyhoeddus adnabyddadwy, er bod Dafydd Wigley wedi dangos bod rhai penawdau eraill hefyd yn adnabyddadwy. Ychwanegwch y penawdau anadnabyddadwy fel gwario milwrol a'r gwario aruthrol ar lywodraeth yn ne-ddwyrain Lloegr a daw'r stori'n hollol wahanol.

Gwyddom yn awr fod arian o'r bloc Cymreig ers 1992 wedi bod yn cael ei ddefnyddio i gyllido rhaglenni Ewropeaidd—rhai y credid gan bawb bron eu bod yn cael eu cyllido drwy arian ychwanegol o Ewrop. Daeth y gwirionedd i'r golwg yn ystod y misoedd diwethaf, ac i'r Cynulliad y mae'r diolch am hynny.

Mae'r mater hwn yn cynnwys cynlluniau megis y cynllun Tir Gofal. Nid yw'r arian Ewropeaidd a ddefnyddir ar gyfer y cynllun Tir Gofal yn ychwanegol at y bloc Cymreig. Pe gallem sicrhau cyfraniad Ewropeaidd yn ychwanegol at arian y bloc Cymreig ar gyfer y cynllun Tir Gofal, byddai'r cynllun hwnnw yn helaethach o lawer. Byddai llawer mwy o ffermwyr yn gallu ymuno, a byddai hynny'n gyfraniad o bwys at osod sylfaen newydd ar

Y Llywydd: Trefn. Nid yw hyn yn berthnasol i ddadl ar y cynllun corfforaethol ac nid wyf am ailagor trafodaethau ddoe.

Richard Edwards: Nid oedd yr ymyriad yn berthnasol i'r cynllun corfforaethol ychwaith. Fel sefydliad mae gennym lawer o ddatblygu i'w wneud

Cynog Dafis: I will make some general comments in view of the fact that we had difficulty in finding out exactly what having a debate on the corporate plan entailed until the beginning of this week.

First, the question of finance. The consultation paper 'A Better Wales' repeats the old myth that Wales gets a generous deal from the United Kingdom Government. The words are:

'The latest estimates show that public spending...on identifiable general government expenditure in Wales is about 18 per cent above the UK average.'

The identifiable public spending is only part of the story, although Dafydd Wigley has shown that other headings are also identifiable. Add the non-identifiable headings such as military expenditure and the huge expenditure on government in the south-east of England and the story becomes a different one.

We now know that, since 1992, money from the Welsh block has been used to finance European programmes—ones that almost everyone believed were being financed through additional money from Europe. The truth came to light during the last few months thanks to the Assembly.

That matter includes schemes like the Tir Gofal scheme. The European money used for the Tir Gofal scheme is not additional to the Welsh block. If we could ensure an European contribution to the Tir Gofal scheme in addition to the funds from the Welsh block, that scheme would be much more extensive. Far more farmers would be able to join, and that would be an important contribution to the laying of a new foundation for sustainable

gyfer amaethyddiaeth gynaliadwy i Gymru ar gyfer y dyfodol.

farming in Wales in the future.

Croesawaf y ffaith fod y Cynulliad wedi penderfynu ddoe na all ganiatáu i'r sefyllfa barhau. Mae hynny'n arwyddocaol ac mae'r cynnig a gytunwyd yn gam pwysig ymlaen.

I welcome the fact that the Assembly decided yesterday that it cannot allow the situation to continue. That is significant and the agreed proposal is an important step forward.

Mae'n bwysig sefydlu'r ffaith fod gwladwriaeth Prydain, gan edrych ar y darlun cyfan, yn dilyn strategaeth trethiant, gwariant cyhoeddus a macro-economeg sydd yn ddifrifol o niweidiol i Gymru, i ranbarthau yng ngogledd a gorllewin Lloegr ac i'r Alban.

It is important to establish the point that the British state, looking at the whole picture, follows a taxation, public expenditure and macro-economics strategy which is extremely harmful to Wales, to regions in the north and west of England and to Scotland.

Mae'r strategaeth yn golygu llog uchel, punt gref a gwario cyhoeddus isel. Er bod gwariant cyhoeddus yn cynyddu ar hyn o bryd mae'n dal i fod yr isaf fel cyfran o gynnyrch mewnwladol crynswth ers Llywodraeth Harold Macmillan yn y 1950au. Dyna'r realiti y mae'n bwysig eithriadol inni ei gofio.

The strategy means high interest, a strong pound and low public expenditure. Although public expenditure is increasing at present it is still the lowest as a proportion of gross domestic product since Harold Macmillan's Government in the 1950s. That is the reality which it is extremely important for us to remember.

Y strategaeth hon, o'i chymryd yn ei chyfanrwydd, yw'r rheswm i raddau helaeth fod economi Cymru yn y fath bicil a pham yr ydym yn byw mewn cymdeithas sydd mor anghyfartal. Mae'n bwysig sefydlu nad unrhyw ddiffygion neu wendidau cynhenid yng Nghymru sydd yn achosi'r sefyllfa ond canlyniad y ffactorau y soniais amdanynt.

That strategy, taken as a whole, is to a considerable extent the reason why the economy of Wales is in such a predicament, and why we are living in a society which is so unequal. It is important to establish that it is not any inherent defects or weaknesses in Wales that cause the situation but that it is the result of the factors to which I have referred.

Bargen wael y mae Cymru yn ei chael gan y Trysorlys a thrwy fformwla Barnett y cyfeiriodd Dafydd Wigley ati, a dylai hynny gael ei gydnabod yn y cynllun strategol a gawn yng ngwanwyn 2000. Mae angen inni gydnabod hynny, tra'n cydnabod yr angen am werth am arian, effeithlonrwydd mewn gwario cyhoeddus ac ati.

Wales gets a bad deal from the Treasury and through the Barnett formula to which Dafydd Wigley referred, and that should be recognised in the strategic plan we will receive in the spring of 2000. We must recognise that, while at the same time recognising at the need for value for money, efficiency in public expenditure and so on.

Mae Edwina Hart yn galw arnom i ymddwyn fel corff corfforaethol. Golyga hynny fod angen i'r Cynulliad yn gyfan, fel y gwnaethom ddoe gyda'r cynnig Amcan 1, alw am fargen deg i Gymru. Mae'r Cynulliad yn awr yn cynrychioli lles Cymru o fewn y Deyrnas Gyfunol.

Edwina Hart calls on us to act as a corporate body. That means that the Assembly as a whole, as we did yesterday with the Objective 1 proposal, must call for a fair deal for Wales. The Assembly now represents the welfare of Wales within the United Kingdom.

Trof yn awr at yr adran ar sialensiau strategol a'r rhestr o werthoedd ac egwyddorion sylfaenol. Yr wyf yn eu hategu a'u cefnogi yn gryf. Yr hyn sydd ar goll yw unrhyw sôn

I now turn to the section on strategic challenges and the list of values and basic principles. I endorse and support them strongly. What is missing is any significant

arwyddocaol am anturiaeth neu genhadaeth neu ddadeni cenedlaethol. Dylai datganiad o'r fath fod yn ganolog, ac yr wyf yn gobeithio y bydd yn ganolog pan ddaw'r ddogfen strategol ger ein bron yng ngwanwyn 2000.

Mae'r brwdfrydedd ynglŷn â'r hunaniaeth genedlaethol—brwdfrydedd sydd yn anfygythiol ac yn gynhwysol—yn rym deinamig potensial ar gyfer ailadeiladu bywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Dylem ymfalchïo yn hynny.

Cynulliad cenedlaethol yw hwn. Arwain y deffroad a'r adfywiad a'r dadeni cenedlaethol yw ei bwrpas. Dyna pam y daeth i fodolaeth. Cymeraf nad rhywbeth i un blaid yw hyn ond rhywbeth i bawb, gobeithio.

Mae adfywiad cenedlaethol hefyd yn golygu proses o gymryd mwy a mwy o reolaeth dros ein bywydau ein hunain. Mae angen i ni fel corff feddwl am symud ymlaen at ddatblygiad cyfansoddiadol pellach wrth i Brydain ac Ewrop gael eu hailstrwythuro. Dylai hynny hefyd fod yn rhan o'n cenhadaeth fel Cynulliad. Credaf fod modd cael consensws cenedlaethol cryf o blaid symud ymlaen i'r cyfeiriad hwnnw.

Yn gysylltiedig â hynny y mae'r angen inni arddel y dasg o fynd i'r afael ag un o broblemau mwyaf Cymru drwy gydol yr ugeinfed ganrif, sef allfudiad parhaus yr ifainc, yr anturus, yr uchelgeisiol a'r rhai sydd â chymwysterau addysgol uwch.

Dyna'r realiti cymdeithasegol sydd yn dominyddu hanes Cymru yn yr ugeinfed ganrif. Mae'n realiti sydd wedi cryfhau wrth i gyfleoedd addysgol gynyddu. Rhaid inni gydnabod hynny.

Yr oeddwn wrth fy modd yn clywed Val Feld yn sôn am hyn mewn araith yn Aberystwyth ac wedyn ddydd Llun mewn cynhadledd a drefnwyd gan y cynghorau hyfforddiant a menter. Rhaid inni greu hinsawdd, amgylchiadau a diwylliant sydd yn peri bod pobl ifainc ddawnus a beiddgar Cymru yn awyddus i greu dyfodol yng Nghymru. Mae hwn yn fater diwylliannol ac economaidd. Mae'r duedd i allfudo yn ddwfn yn ein seice

mention of enterprise or mission or national rebirth. Such a statement should be central, and I hope it will be central when the strategic document comes before us in the spring of 2000.

The enthusiasm regarding the national identity—an enthusiasm which is unthreatening and inclusive—is a potential dynamic force for the rebuilding of the economic, social and cultural life of Wales. We should be proud of that.

This is a national Assembly. Its purpose is to lead the national awakening, revival and rebirth. That is why it came into existence. I assume that this is not something for one party but something for everyone, I hope.

National regeneration also means a process of taking more and more control over our own lives. As a body we must think of moving forward to further constitutional developments as Britain and Europe are restructured. That should also be part of our mission as an Assembly. I think it is possible to have strong national consensus in favour of moving forward in that direction.

Associated with that is the need for us to claim the task of tackling one of the greatest problems of Wales throughout the twentieth century, the continuous migration of the young, the adventurous, the ambitious and those with higher educational qualifications.

That is the sociological reality dominating the history of Wales in the twentieth century. It is a reality which has strengthened as educational opportunities increase. We must acknowledge that.

I was delighted to hear Val Feld talk about this in a speech in Aberystwyth and again on Monday at a conference organised by the training and enterprise councils. We must create a climate, circumstances and a culture that ensures that talented and risk-taking young people of Wales are eager to create a future in Wales. This is a cultural and economic matter. The tendency to migrate is deep in our national psyche. I was extremely

cededlaethol. Yr oeddwn yn hynod o falch o weld Val Feld, fel Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd, yn amlygu hyn yn ein blaenoriaethau. Mae angen gwneud hynny. Nid yw'r thema hon yn ddigon cryf yn y dogfennau a drafodwyd ddoe ac nid oes sôn amdani yn y ddogfen hon. Mae angen cywiro hynny ac fe ddylai fod yn un o'r prif ddangosyddion i fesur llwyddiant gwaith y Cynulliad.

3:59 p.m.

Yr oeddwn yn falch o weld pwyslais ychwanegol ar gynaliadwyedd yn y blaenoriaethau diwygiedig a chefnogaf bopeth a ddywedodd Peter Black ynglŷn â hynny. Mae'n galonogol hefyd gweld pwyslais cryf ar gynaliadwyedd yn y ddogfen Amcan 1. Rhaid i ddatblygu cynaliadwy, gan gynnwys yr agweddau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, fod yn greiddiol i'r dasg o greu dyfodol cenedlaethol i Gymru.

Mae disgwyl mawr am y cynllun datblygu cynaliadwy drafft sydd yn cael ei baratoi, a'r broses ymgynghori a fydd yn dilyn. Mae angen i'r cynllun a'r broses fwydo i mewn i baratoi'r cynllun strategol a'i hydreiddio. Mae angen inni ddefnyddio'r dangosyddion cywir, nid dim ond cynnyrch mewnwladol crynswth o hyd ac o hyd. Mae hwnnw'n ddangosydd pwysig, ond nid dyna'r unig un. Mae angen inni ddefnyddio dangosyddion amgen megis y mynegai ar les economaidd cynaliadwy a'r rhai a ddatblygwyd yn Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau yn Llundain. Rhaid eu cynnwys yn y broses.

Fframwaith cynllunio newydd yw'r allwedd i sicrhau llwyddiant datblygu cynaliadwy. Mae angen cynllun corfforaethol arnom i ystyried y mater hwn yn flaenoriaeth. Mae arnom angen fframwaith sydd yn gwasgaru ffyniant, yn lluddias datblygiadau niweidiol megis canolfannau siopa all-dref a chloddio glo brig, ac yn hwyluso ac yn galluogi datblygu cynaliadwy ym maes ynni adnewyddol.

Mae arnom hefyd angen bwriad clir i leihau pwysau gor-ddatblygiad, er enghraifft mewn rhannau o'r de-ddwyrain. Mae angen i asiantaethau eraill megis Awdurdod Datblygu

pleased to see Val Feld, as Chair of the Economic Development Committee, giving this prominence in our priorities. That must be done. This theme is not strong enough in the documents discussed yesterday and there is no mention of it in this document. That must be rectified and it should be one of the main indicators to measure the success of the Assembly's work.

I was pleased to see an extra emphasis on sustainability in the revised priorities and I support everything that Peter Black said about that. It is also heartening to see a strong emphasis on sustainability in the Objective 1 document. Sustainable development, including the economic, social, environmental and cultural aspects, must be an integral part of the task of creating a national future for Wales.

There is great anticipation for the draft sustainable development plan, under preparation, and the consultation process that will follow. The plan and process must feed into the preparation of the strategic plan and permeate it. We must use the correct indicators, not only gross domestic product time and time again. That is an important indicator, but not the only one. We must use alternative indicators such as the index of sustainable economic welfare and those developed in the Department of the Environment, Transport and the Regions in London. They must be included in the process.

A new planning framework is the key to ensuring the success of sustainable development. We need a corporate plan to consider this matter a priority. We need a framework that spreads prosperity, prevents detrimental developments such as out of town shopping centres and open cast mining, and that facilitates and enables sustainable development in the renewable energy field.

We also need a clear intention to lessen the pressure of over development, for example in parts of the south-east. Other agencies such as the Welsh Development Agency must

Cymru gefnogi hyn. Rhaid iddynt ymwrthod â'r math o agenda guddiedig sydd gan rai pobl yn Awdurdod Datblygu Cymru, er enghraifft y dylai Caerdydd dyfu yn ddinas o filiwn o bobl. Clywir y math hwnnw o siarad o hyd. Mae angen iddynt ddod i mewn i'r prosiect cenedlaethol ac anelu at wasgaru ffyniant.

Yr wyf yn hynod o falch o weld yr angen i ddatblygu polisi wedi ei deilwra yn ôl anghenion ac amgylchiadau Cymru yn y crynodeb o ymatebion, ac yr oeddwn yn falch o glywed Edwina Hart yn sôn am hyn. Mae hon yn neges eithriadol bwysig i'r Prif Ysgrifennydd a'r Cabinet. Hyd yn hyn, nid oes fawr o arwyddion o hyn yn digwydd. Ar hyn o bryd, mae tuedd i efelychu yn slafaidd yr *hand me downs* yn nhermau polisi o Lundain. Mae cyflogau athrawon yn enghraifft berffaith o hynny. Rhaid inni wrthod y math hwnnw o dueddiad.

Bydd Plaid Cymru yn cyhoeddi rhestr o'n blaenoriaethau. Yr ydym wedi cyfrannu yn barod ond bydd hyn yn gyfraniad pellach i'r broses. Byddwn yn barnu'r cynllun strategol yng ngoleuni'r cwestiwn hwn: i ba raddau y bydd yn adlewyrchu ein blaenoriaethau cenedlaethol ni yng Nghymru, nid rhai sydd wedi eu gosod mewn lleoedd eraill? Edrychaf ymlaen at gamau nesaf y broses.

Janice Gregory: I firmly believe that ownership of this plan is essential and that this debate provides the Assembly with its first opportunity to discuss and flesh out the key messages of the plan. The consultation process and the 100 responses received illustrate the interest and commitment of many organisations to this concept and importantly to the delivery of the plan.

As a large and complex organisation, we must accept that the Assembly and all Assembly sponsored public bodies must have clear priorities and allocate resources accordingly. We require our public sector partners to develop their own strategic plans, which can complement our own. It is important that the Assembly is seen to take the lead in the adoption of good practice on this.

This plan must not be perceived as a

support this. They must reject the sort of hidden agenda that some people in the WDA have, for example that Cardiff should grow to a city of a million people. That sort of talk is often heard. They must be a part of the national project and aim to distribute prosperity.

I am extremely pleased to see the need for policy development tailored according to the needs and circumstances of Wales in the summary of responses and was glad to hear Edwina Hart mentioning that. This is an extremely important message for the First Secretary and Cabinet. So far, there are not many signs of that happening. At the moment, there is a tendency to copy slavishly the policy hand me downs from London. Teachers' pay is a perfect example of that. We must reject that sort of tendency.

Plaid Cymru will issue a list of our priorities. We have already contributed but this will be a further contribution to the process. We will judge the strategic plan in the light of this question: to what extent will it reflect our national priorities in Wales, not ones that have been set in other places? I look forward to the next steps in the process.

Janice Gregory: Credaf yn bendant fod perchenogaeth o'r cynllun hwn yn hanfodol a bod y ddadl hon yn rhoi i'r Cynulliad ei gyfle cyntaf i drafod a rhoi cnawd ar brif negeseuon y cynllun. Mae'r broses ymgynghori a'r 100 ymateb a dderbyniwyd yn dangos diddordeb ac ymrwymiad llw o sefydliadau i'r cysyniad hwn ac, yn dra phwysig, i wireddu'r cynllun.

Fel sefydliad mawr a chymhleth, rhaid inni dderbyn bod yn rhaid i'r Cynulliad a phob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad fod â blaenoriaethau clir, a dyrannu adnoddau yn unol â hynny. Mynnwn fod ein partneriaid yn y sector cyhoeddus yn datblygu eu cynlluniau strategol eu hunain, a gallent ategu ein cynllun ni. Mae'n bwysig bod pobl yn gweld y Cynulliad yn arwain y ffordd o ran mabwysiadu ymarfer da ar hyn.

Rhaid i'r cynllun hwn beidio â chael ei weld

bureaucratic or paper exercise. A good plan will help us identify manageable priorities and set realistic targets for future achievement. We must be clear on actions and express our aims, aspirations and objective targets in simple terms.

I return now to the subject of ownership. For this plan to be credible and workable we must take it forward with our partners. I am pleased that the Finance Secretary has outlined her discussions with groups such as the WLGA, the voluntary sector and the business community. I am particularly pleased with the positive nature of the responses received. The assistance and opinions of these organisations will be invaluable. However, we must not forget our responsibility as an Assembly to make this plan work for the good of Wales.

In conclusion, I have examined the consultation responses. There is a feeling in consultation that we only listen to the opinions of major players such as the WLGA and the Confederation of British Industry Wales. All the responses we have received are of equal validity and I am pleased that the opinion of organisations that are not perceived as big guns have brought about revision of the plans. I have also noted, Edwina, that nearly all the responses also included a request for additional funds. Many referred to Objective 1. It may be of interest to Assembly Members to learn that Tony Blair at Prime Minister's Question Time this afternoon said in answer to a question from Lembit Öpik:

'We do not intend to let the people of Wales down. I have also said throughout that the only reason why we can have this discussion is that we achieved Objective 1 and 2 for Wales. We know that we have to make it good...'

The Presiding Officer: Quoting Hansard instantly must be a first. I call Kirsty Williams.

Kirsty Williams: Thank you, Presiding Officer, though perhaps I should thank Richard Edwards instead because he seems to think that those of us here who are not Labour Party members owe him and his

fel ymarferiad biwrocraidd neu rywbeth ar bapur. Bydd cynllun da yn help inni ganfod blaenoriaethau dichonadwy a gosod targedau realistig i'w cyflawni i'r dyfodol. Rhaid inni fod yn glir ynghylch camau gweithredu a mynegi ein hamcanion, dyheadau a thargedau gwrthrychol mewn termau syml.

Dychwelaf yn awr at fater perchenogaeth. Er mwyn i'r cynllun hwn fod yn gredadwy ac ymarferol rhaid inni ei symud yn ei flaen gyda'n partneriaid. Yr wyf yn falch i'r Ysgrifennydd Cyllid roi amlinelliaid o'i thrafodaethau gyda grwpiau fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y sector gwirfoddol a'r gymuned fusnes. Yr wyf wedi fy mhlesio'n arbennig â natur bositif yr ymatebion a gafwyd. Bydd cymorth a barn y cyrff hyn yn amhrisiadwy. Fodd bynnag, rhaid inni beidio ag anghofio ein cyfrifoldeb fel Cynulliad i wneud i'r cynllun hwn weithio er lles Cymru.

I gloi, yr wyf wedi edrych yn fanwl ar yr ymatebion i'r ymgynghori. Mae yna deimlad wrth ymgynghori nad ydym ond yn gwrandao ar farn y prif chwaraewyr megis CLILC a Chyd-ffederasiwn Diwydiannau Prydain. Mae pob ymateb a dderbyniwyd yr un mor ddilys ag unrhyw un arall ac yr wyf yn falch bod barn cyrff nad ydynt yn cael eu hystyried yn dra dylanwadol wedi arwain at newidiadau i'r cynlluniau. Nodais hefyd, Edwina, fod pob un bron o'r ymatebion yn cynnwys cais am gyllid ychwanegol. Cyfeiriodd llawer at Amcan 1. Efallai y byddai o ddiddordeb i Aelodau'r Cynulliad glywed i Tony Blair ddweud mewn Sesiwn Cwestiynau i'r Prif Weinidog brynhawn heddiw, mewn ateb i gwestiwn gan Lembit Öpik:

Y Llywydd: Y tro cyntaf yr wyf yn sicr i Hansard gael ei ddyfynnu ar unwaith. Galwaf ar Kirsty Williams.

Kirsty Williams: Diolchaf i'r Llywydd, er efallai y dylwn ddiolch i Richard Edwards yn lle hynny oherwydd mae ef fel petai'n meddwl bod ar y rhai hynny ohonom yma nad ydym yn aelodau o'r Blaid Lafur ddyled

colleagues a debt of gratitude for providing Wales with a democratic institution and a fair voting system.

I welcome the process in which we find ourselves. It must be a welcome change for the people of Wales to be involved in this way.

I shall make some brief comments on the better health and well-being section of the paper. I welcome the revision of that priority. It now recognises the close relationship between the NHS and social care. Given that the Health and Social Services Committee spend so much time talking about that, it would have been remiss not to include it in this document. The NHS and social services providers throughout Wales make fantastic and valuable but separate contributions. However, put together their effect on people's lives in Wales will be much more powerful provided that we can find creative and innovative ways for them to pool their resources and put in place plans to deliver better health and well-being.

I look forward to priority 10 being put into practice through real investment in health promotion budget lines. In particular, I look forward to a recognition from the Labour administration that with programmes such as free eye tests and free dental check ups we can take steps to prevent illness.

I also welcome the revision that mentions the financial viability of institutions within the health service. At the end of the 1998-99 financial year, Welsh health authorities had an accumulative deficit of some £72 million and a recurring deficit of £25.1 million year on year. It is a refreshing change to see an administration that is willing to provide strategic financial planning for the health service. That has been sadly lacking in previous administrations and times.

o ddiolchgarwch iddo ef a'i gyd-aelodau am roi i Gymru sefydliad democrataidd a system bleidleisio deg.

Croesawaf y broses y cawn ein hunain ynddi. Mae'n rhaid ei fod yn newid i'w groesawu i bobl Cymru i gael llais fel hyn.

Gwnaf rai sylwadau byr ar yr adran o'r papur sydd yn ymdrin â gwell iechyd a lles. Croesawaf y newid a fu yn y flaenoriaeth honno. Bellach mae'n cydnabod y berthynas agos rhwng yr NHS a gofal cymdeithasol. O ystyried bod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn treulio cymaint o amser yn trafod hynny, byddai'n ddiffyg amlwg peidio ei gynnwys yn y ddogfen hon. Mae'r NHS a darparwyr y gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru yn gwneud cyfraniadau aruthrol a gwerthfawr ond gwahanol. Fodd bynnag, o'u rhoi at ei gilydd, bydd eu heffaith ar fywydau pobl yng Nghymru yn llawer mwy grymus cyhyd â'n bod yn gallu canfod ffyrdd creadigol ac arloesol iddynt gronni eu hadnoddau a sefydlu cynlluniau i sicrhau gwell iechyd a lles.

Edrychaf ymlaen at weld blaenoriaeth 10 yn cael ei rhoi ar waith drwy fuddsoddiad gwirioneddol mewn llinellau hybu iechyd yn y gyllideb. Edrychaf ymlaen yn enwedig at gydnabyddiaeth o du'r weinyddiaeth Lafur y gallwn, gyda rhaglenni fel profion llygaid am ddim ac archwiliadau deintyddol am ddim, gymryd camau i atal salwch.

Croesawaf hefyd y newid sydd yn sôn am hyfywedd ariannol sefydliadau yn y gwasanaeth iechyd. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 1998-99, yr oedd gan awdurdodau iechyd Cymru ddiffyg cronol o thua £72 miliwn a diffyg rheolaidd o £25.1 miliwn flwyddyn ar ôl blwyddyn. Braf yw gweld gweinyddiaeth sydd yn barod i gynnig cynllunio ariannol strategol ar gyfer y gwasanaeth iechyd. Bu prinder difrifol yn hynny o beth mewn gweinyddiaethau a chyfnodau cyn hyn.

4:09 p.m.

The document mentions responsiveness of health services. I hope that means that we will at last see action on systems that are painfully slow for the thousands waiting for treatment. Waiting times have risen dramatically in the space of two years. There has been a jump of some 358 per cent in people waiting for six months or more. I also welcome the recognition and the priority given to tackling inequality of access. That will be particularly welcome to my constituents in Brecon and Radnorshire who have difficulty in accessing good quality health services due to the geographical nature of their areas.

However, I have one criticism. I would like to add a priority 11(b) to priority 11 and mention the NHS staff. Our priority is to create an NHS that supports every contribution that health workers in Wales make to the system and to the services that they deliver. The Assembly, while making very high demands on those staff, must ensure that they have our support in the difficult jobs that they face. This morning we heard how badly off Wales is in terms of clinicians employed in this country. If one looks at the UK figures as a whole, we employ around 1,500 clinicians per million people which is a stark contrast to the 2,500 per million employed in Australia, the 3,000 per million employed in Germany and almost 4,000 per million employed in Greece. I hope that consideration can be given to creating a priority that values the contribution of staff within the NHS and recognises the need to recruit more people and pay them properly for their work.

Janet Davies: The words of this review outcome are good but they begin to lull one into thinking how well Government is doing in Wales. The aspirations that are expressed must be achieved. That needs work by the Cabinet and the Committees and is addressed in the amendment.

Putting the achievements of the aims aside for the moment, it is obvious that every word in this document is charged with meaning. Words have not been changed for the sake of it. Therefore, when on page three, I see that

Mae'r ddogfen yn sôn am allu'r gwasanaethau iechyd i ymateb. Gobeithiaf fod hynny'n golygu y gwelwn rywbeth yn cael ei wneud o'r diwedd ar systemau sydd yn boenus o araf i'r miloedd sydd yn disgwyl am driniaeth. Mae amserau aros wedi codi'n ddramatig o fewn dwy flynedd. Cafwyd naid o tua 358 y cant yn y niferoedd sydd yn disgwyl chwe mis neu fwy. Croesawaf hefyd y gydnabyddiaeth a'r flaenoriaeth a roddir i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran mynediad. Bydd fy etholwyr i ym Mrycheiniog a Maesefed, sydd yn ei chael hi'n anodd cyrraedd at wasanaethau iechyd o ansawdd da oherwydd natur ddaearyddol eu hardaloedd, yn croesawu hynny'n arbennig.

Fodd bynnag, mae gennyf un feirniadaeth. Hoffwn ychwanegu blaenoriaeth 11(b) at flaenoriaeth 11 a sôn am staff yr NHS. Ein blaenoriaeth yw creu NHS sydd yn cefnogi pob cyfraniad y mae gweithwyr iechyd yng Nghymru yn ei wneud i'r system ac i'r gwasanaethau y maent yn eu cyflenwi. Rhaid i'r Cynulliad, tra'n disgwyl llawer iawn gan y staff hyn, sicrhau eu bod yn cael ein cefnogaeth yn y swyddi anodd y maent yn eu hwynebu. Clywsom fore heddiw mor fain yw hi ar Gymru o ran nifer y clinigwyr a gyflogir yn y wlad hon. Os edrychir ar ffigurau'r DU yn ei chyfanrwydd, cyflogwn ni tua 1,500 o glinigwyr fesul miliwn o bobl sydd yn gwrthgyferbynnu'n fawr â'r 2,500 y miliwn a gyflogir yn Awstralia, y 3,000 y miliwn a gyflogir yn yr Almaen a'r bron i 4,000 y miliwn a gyflogir yng ngwlad Groeg. Gobeithiaf y gellir rhoi ystyriaeth i greu blaenoriaeth sydd yn rhoi gwerth ar gyfraniad y staff o fewn yr NHS ac yn cydnabod yr angen i recriwtio mwy o bobl a thalu'n briodol iddynt am eu gwaith.

Janet Davies: Mae geiriau ffrwyth yr adolygiad hwn yn dda ond maent yn dechrau suo rhywun i feddwl mor dda y mae'r Llywodraeth yn ei wneud yng Nghymru. Rhaid gwireddu'r dyheadau a fynegir. Mae hynny'n golygu gwaith gan y Cabinet a'r Pwyllgor a rhoddir sylw iddo yn y gwelliant.

Gan roi gwireddu'r amcanion i'r naill ochr am y tro, mae'n amlwg bod pob gair yn y ddogfen hon yn llwythog o ystyr. Ni newidiwyd geiriau er mwyn gwneud hynny. Felly, pan welaf ar dudalen tri fod y

the Best Value priority has been changed to 'better, simpler government', I ask what that means. Does it mean that Best Value is no longer an aim?, is it a realistic acceptance that it is not achievable? Where does that leave the months of work to achieve Best Value in local government? Does it mean that the Assembly need not work for Best Value but that local government must?

The Assembly's aim is 'better, simpler government'. Better than the last few months is a laudable aim. We will all breathe a sigh of relief if we no longer have to waste hours trying to get hold of papers for meetings in reasonable time to consider them properly. Simpler to me means simpler laws and less red tape allowing us to release energies and resources to provide better services. It means finding elegant solutions to ensure that all levels of government act honourably in the service of Welsh people. The phrase must affect Government in Wales whether in Cardiff or in the county halls throughout the length and breadth of this country.

Why has the Partnership Council been presented with a document on Best Value for local government that is a nightmare of bureaucracy and red tape? If you think I exaggerate I will give you a flavour of the document. In its 50 pages plus appendices, it proposes to set up a Best Value inspectorate to act where there is no existing one. The Welsh Local Government Association considers this 'expensive and intrusive'. With some justification you may think of Mandy Rice Davies's words: 'They would, wouldn't they?'

First, the document makes positive statements about partnership, then it goes on to prescribe reviews and performance plans featuring a programme, objectives and performance measures, Best Value reviews and audit and certification to be published by 31 March each year. That is six items. The Finance Act 1999 requires information to be set out under eight main headings. It goes on to performance indicators, action plans, a comparison with other councils based on four

flaenoriaeth Gwerth Gorau wedi ei newid i 'well a symlach llywodraeth', gofynnaf beth yw ystyr hynny. A yw'n golygu nad yw'r Gwerth Gorau yn nod mwyach?, neu ai derbyn yn realistig a wneir na ellir ei gyflawni? Ym mhle mae hynny'n gadael y misoedd o waith i gyflawni'r Gwerth Gorau mewn llywodraeth leol? A yw'n golygu nad oes raid i'r Cynulliad weithio tuag at y Gwerth Gorau ond fod llywodraeth leol yn gorfod?

Nod y Cynulliad yw 'gwell a symlach llywodraeth'. Mae gwell na'r misoedd diwethaf yn nod clodwiw. Bydd pawb ohonom yn gollwng ochenaid o ryddhad os na fydd rhaid inni wastraffu oriau mwyach yn ceisio cael gafael ar bapurau cyfarfodydd mewn amser rhesymol inni allu eu hystyried yn briodol. Mae symlach i mi yn golygu deddfau symlach a llai o fân reolau sydd yn ein galluogi i ryddhau egni ac adnoddau i ddarparu gwell gwasanaethau. Mae'n golygu canfod atebion cain i sicrhau bod pob lefel o lywodraeth yn gweithredu'n anrhydeddus yng ngwasanaeth pobl Cymru. Rhaid i'r ymadrodd effeithio ar Lywodraeth yng Nghymru boed hynny yng Nghaerdydd neu yn y neuaddau sir ar hyd a lled y wlad hon.

Pam y cyflwynwyd dogfen i'r Cyngor Partneriaeth ar Werth Gorau i lywodraeth leol sydd yn hunllef o fiwrocratiaeth a mân reolau? Os tybiwch fy mod yn gor-ddweud, rhoddaf flas o'r ddogfen ichi. Yn ei 50 tudalen ynghyd ag atodiadau, mae'n awgrymu sefydlu arolygiaeth Gwerth Gorau i weithredu lle nad oes un ar hyn o bryd. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r farn bod hyn yn 'gostus a busnesgar'. Gallech, gyda chyfiawnhad, gofio geiriau Mandy Rice Davies: 'Mi fydden nhw, yn byddent?'

Yn gyntaf, mae'r ddogfen yn gwneud datganiadau positif am bartneriaeth, yna mae'n mynd rhagddi i bennu adolygiadau a chynlluniau perfformiad sydd yn cynnwys rhaglen, amcanion a mesurau perfformiad, adolygiadau, archwiliadau a thystysgrifau Gwerth Gorau i'w cyhoeddi erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae hynny yn chwe eitem. Dan Ddeddf Cyllid 1999 mae'n rhaid cyflwyno gwybodaeth dan wyth prif bennawd. Mae'n mynd yn ei blaen at

main indicators and the need for performance information systems. There must be an integrated strategic approach to consultation using seven methods. On page 23 it states:

‘...in order to achieve continuous improvement. Where the market is demonstrably weak, authorities will want to consider how to encourage competition in order to ensure that the most competitive services are provided to its community’.

How will this be done? The document goes on to state that there should be cross-cutting and policy reviews with five key objectives. That is before any mention of intervention. This may be essential to ensure that local government performs to the best of its ability. I am not arguing against a reasonable, proper audit, but this goes beyond that. Perhaps local government cannot be trusted to provide better, simpler government. The problem with wrapping up a tier of government in this amount of red tape is that it will spend too much time working out ways of evading it. Most local councils spent a great deal of time doing that with Tory legislation for 18 years. It was always possible to put bits of law together to get the legal basis for providing a service, however much the Tories did not want local people to have that service.

Wrapping local government in red tape stifles fresh ideas and new ways of working and promotes a culture of dependency. I have an awful picture of a well-known county hall around which the First Secretary is winding spools of red tape. Do not worry, Plaid Cymru will not produce such a Christmas card.

Simpler government means finding elegant, self-correcting solutions to problems. One of them is called an election. I would expect the Government of Wales to have other solutions when it further develops this theme and I hope it will apply to local as well as central government in Wales.

ddangosyddion perfformiad, cynlluniau gweithredu, cymhariaeth gyda chynghorau eraill wedi ei seilio ar bedwar prif ddangosydd a'r angen am systemau gwybodaeth perfformio. Rhaid ymdrin mewn modd strategol, integredig ag ymgynghori gan ddefnyddio saith dull. Ar dudalen 23 dywed:

‘...er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Lle mae'r farchnad yn amlwg yn wan, bydd yr awdurdodau am ystyried sut mae annog cystadleuaeth er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau mwyaf cystadleuol yn cael eu darparu i'w cymuned’.

Sut y gwneir hyn? Â'r ddogfen rhagddi i ddweud y dylai fod yna adolygiadau polisi a thrawsbynciol gyda phum amcan allweddol. Mae hynny cyn y ceir unrhyw sôn am ymyrryd. Efallai fod hyn yn hanfodol i sicrhau bod llywodraeth leol yn perfformio hyd eithaf ei gallu. Nid wyf yn dadlau yn erbyn archwiliad rhesymol, priodol, ond mae'n mynd ymhellach na hynny. Efallai na ellir ymddiried mewn llywodraeth leol i roi gwell a symlach llywodraeth. Y broblem wrth lapio haen o lywodraeth mewn cynifer â hyn o fân reolau yw y bydd yn treulio llawer o amser yn ceisio ffyrdd i'w hosgoi. Treuliodd y rhan fwyaf o gynghorau lleol lawer iawn o amser yn gwneud hynny gyda deddfwriaeth Doriaidd am 18 mlynedd. Yr oedd bob amser yn bosibl gosod mân ddarnau o ddeddfwriaeth at ei gilydd i gael sylfaen gyfreithiol ar gyfer darparu gwasanaeth, er mor benderfynol oedd y Toriaid nad oeddynt am i bobl leol gael y gwasanaeth hwnnw.

Mae lapio llywodraeth leol mewn mân reolau yn mygu syniadau ffres a ffyrdd newydd o weithio ac yn hybu diwylliant o ddibyniaeth. Mae gennyf ddarlun ofnadwy o neuadd sir adnabyddus gyda'r Prif Ysgrifennydd yn cordeddu tâp coch o'i hamgylch. Peidiwch â phoeni, ni fydd Plaid Cymru yn cynhyrchu cerdyn Nadolig felly.

Mae llywodraeth symlach yn golygu canfod atebion cain, sydd yn cywiro eu diffygion eu hunain, i broblemau. Gelwir un ohonynt yn etholiad. Byddwn yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fod ag atebion eraill pan fydd yn datblygu'r thema hon ymhellach a gobeithiaf y bydd yn berthnasol i lywodraeth leol yn

ogystal â llywodraeth ganolog yng Nghymru.

Brian Gibbons: I want to comment on the revised priorities for health in this document. The document states that priority 10 is 'to improve health and reduce inequalities by tackling the underlying causes of ill health', and is only in draft form. However, it has changed substantially and the revised words are a significant improvement. The earlier words 'to seek to reduce disparities' are a little weasel-worded, whereas the new formulation of firmed-up words concentrates on dealing with the causes. Generally, unless we address the causes, we cannot significantly affect the people of Wales's long-term health.

Nine of the 18 priorities will have a direct impact on health. For example, unemployed people have a much higher health risk and priority three deals with jobs. Priority five deals with the rural economy and people in adverse circumstances in the rural economy have the worst health. Priority six deals with giving our children a flying start in life through the Sure Start programme. Priorities seven and eight deal with education, social disengagement and disintegration and giving people the opportunity to re-integrate back into society. Priorities 10 and 11 deal directly with health and priority 12 with improving our environment and pollution. Priority 13 deals with the fabric of a community and reducing crime levels.

The revised wording of priority 10 deals with the causes of crime and the list of actions that follows is impressive. These priorities focus on taking major steps forward to deal with the severe adverse health profile in Wales and the inequalities in health.

4:19 p.m.

Moving on to point 11, Kirsty requested a point 11(b) but I think there is a point 11(a) and 11(b) already. Point 11(a) deals with the importance of working together, drawing on the relationship between health and social

Brian Gibbons: Hoffwn ymdrin â'r blaenoriaethau diwygiedig o ran iechyd yn y ddogfen hon. Dywed y ddogfen mai blaenoriaeth 10 yw 'gwella iechyd a lleihau anghydraddoldeb drwy fynd i'r afael ag achosion gwaelodol salwch', ac nad yw ond ar ffurf ddrafft. Fodd bynnag, mae wedi ei newid yn sylweddol ac y mae'r geiriad diwygiedig yn gryn welliant. Mae'r geiriau cynharach 'ceisio lleihau gwahaniaethau' braid yn gamarweiniol, tra bo'r ffurf newydd â geiriad cadarnach yn canolbwyntio ar ddelio â'r achosion. Yn gyffredinol, oni allwn fynd i'r afael â'r achosion, ni allwn effeithio'n sylweddol ar iechyd hirdymor pobl Cymru.

Bydd naw o'r 18 blaenoriaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd. Er enghraifft, mae'r risg i iechyd pobl ddi-waith yn llawer uwch ac y mae blaenoriaeth tri yn delio â swyddi. Mae blaenoriaeth pump yn delio ag economi cefn gwlad a'r bobl yn yr amgylchiadau mwyaf anodd yn economi cefn gwlad sydd â'r iechyd gwaethaf. Mae blaenoriaeth chwech yn delio â rhoi cychwyn rhagorol mewn bywyd i blant drwy'r rhaglen Cychwyn Cadarn. Mae blaenoriaethau saith ac wyth yn delio ag addysg, dadymafael cymdeithasol a chwalfa a rhoi'r cyfle i bobl integreiddio'u hunain yn ôl i gymdeithas. Mae blaenoriaethau 10 ac 11 yn delio'n uniongyrchol ag iechyd a blaenoriaeth 12 â gwella ein hamgylchedd a llygredd. Mae blaenoriaeth 13 yn delio â gwead cymuned a gostwng lefelau troseddu.

Mae geiriad diwygiedig blaenoriaeth 10 yn delio ag achosion troseddu ac y mae'r rhestr o gamau gweithredu sydd yn ei dilyn yn drawiadol. Mae'r blaenoriaethau hyn yn canolbwyntio ar gymryd camau mawr ymlaen i ddelio â'r proffil iechyd difrifol wael yng Nghymru a'r anghydraddoldebau yn y maes iechyd.

Gan symud ymlaen at bwynt 11, gofynnodd Kirsty am bwynt 11(b) ond credaf fod yna bwynt 11(a) ac 11(b) yn barod. Mae pwynt 11(a) yn delio â phwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd, gan fanteisio ar y berthynas

care. The priority of linking those two issues was considered by the First Secretary from day one when the Health and Social Services Committee was created. That priority is also reflected in our policies for developing local health groups and bringing the voluntary sector's health and social care elements and public representatives together to develop healthcare policies.

Point 11(a) is also reflected in the new Health Act 1999, which allows health and local authorities to work together. It addresses the perennial problem of choosing a lead agency, lead commissioner and funder in devising health and social care policies. The new Health Act 1999 is a tremendous opportunity for health and social care representatives to work together and deal with these demarcation disputes that have been major barriers to joint working in social care.

Point 11(b) dealing with the inequality of access to the most disadvantaged people and communities also deserves attention. We have been given a number of reassurances in this Chamber and in the Health and Social Services Committee about the general integrity of our hospitals, despite a recent high profile press statement to the contrary. We maintain that policy. As a result, we are more in line with evidence in the scientific and medical journals stating that there is even less tension between delivering an effective, efficient and accessible service and hospital size. Small to medium-sized hospitals are proving more efficient, effective and economical. Furthermore, they provide greater and easier access. Our priorities are increasingly more in line with the scientific evidence.

Finally, we are trying to establish a children's commissioner in Wales. The Health and Social Services Committee has discussed children leaving care. Around 300,500 children are currently cared for by our local authorities. We had the Sure Start programme and the new Care Commission looking at residential and nursing homes as well as care homes for the young. Our agenda and

rhwng iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Prif Ysgrifennydd wedi ystyried bod tynnu'r ddau faes yma at ei gilydd yn flaenoriaeth o'r diwrnod cyntaf pan grëwyd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Caiff y flaenoriaeth hon ei hadlewyrchu hefyd yn ein polisiau ar ddatblygu grwpiau iechyd lleol a dod ag elfennau iechyd a gofal cymdeithasol y sector gwirfoddol a chynrychiolwyr cyhoeddus at ei gilydd i ddatblygu polisiau gofal iechyd.

Adlewyrchir pwynt 11(a) hefyd yn y Ddeddf Iechyd 1999 newydd, sydd yn caniatáu i awdurdodau iechyd a lleol weithio gyda'i gilydd. Mae'n ymdrin â'r broblem barhaus o ddewis asiantaeth flaen, comisiynydd blaen a chorff cyllido wrth ddyfeisio polisiau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Ddeddf Iechyd 1999 newydd yn gyfle rhagorol i gynrychiolwyr iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd a delio â'r anghydfodau diffinio gwaith hyn a fu'n gymaint o rwyst rhag cydweithio o fewn gofal cymdeithasol.

Mae pwynt 11(b), sydd yn delio ag anghydraddoldeb y bobl a'r cymunedau sydd â'r diffyg mantais mwyaf o ran mynediad, hefyd yn haeddu sylw. Rhoddwyd sicrwydd sawl gwaith inni yn y Siambr hon ac yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am sadrwydd ein hysbytai, er gwaethaf datganiad amlwg iawn i'r wasg yn mynegi'r gwrthwyneb yn ddiweddar. Cadwn at y polisi hwnnw. O ganlyniad, yr ydym yn fwy unol â'r dystiolaeth yn y cylchgronau gwyddonol a meddygol bod llai fyth o densiwn rhwng cyflwyno gwasanaeth effeithiol, effeithlon hawdd ei gyrraedd a maint ysbytai. Mae ysbytai bach i ganolig eu maint yn profi'n fwy effeithlon, effeithiol ac economaidd i'w rhedeg. Maent hefyd o fewn cyrraedd i fwy o bobl, a hynny yn haws. Fwyfwy, mae ein blaenoriaethau ni yn cydfynd â'r dystiolaeth feddygol.

Yn olaf, yr ydym yn ceisio sefydlu comisiynydd plant yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi trafod plant yn gadael gofal. Ar hyn o bryd, gofelir am oddeutu 300,500 o blant gan ein hawdurdodau lleol. Cawsom y rhaglen Cychwyn Cadarn a'r Comisiwn Gofal newydd yn edrych ar gartrefi preswyl a nyrsio yn ogystal â

priorities are very challenging ones. These policies and priorities will deliver better and more equal health in Wales.

Mick Bates: I agree that the general processes and principles have been positive ones, and I hope they lead to a fairer Wales. However, although it is called a strategic plan, I consider it a national strategic vision. I welcome the increased emphasis on sustainable development because that underpins the Assembly's development enabling us to make a distinctive Wales. I would go so far as to suggest that instead of a Welsh development agency we need a Welsh sustainable development agency. That would underpin our total commitment to a vision of sustainable development in Wales. I would like to reinforce Cynog Dafis's points, that while GDP is a good measure of our success, our overriding aim should be to increase the quality of life in Wales. That must be strengthened within a commitment to an annual measure of factors that affect quality of life. The Department for the Environment, Transport and the Regions, for example, has 14 measures of the quality of life, which we would do well to adopt within our strategic vision.

The adoption of a sustainable energy plan for Wales should provide an equal element in this strategic vision. We must tread along that line. It would underpin our care for the environment, the economy and our society. The planning guidance notes should be adjusted within those terms. To achieve our strategic vision we must ensure that there is ample opportunity in the planning guidance notes for communities to participate. I welcome the liberal principle of active citizenship that is expressed in this document. That can only be enhanced by involvement in a planning procedure, so that we can develop the community biomass projects that are so important in the context of energy use in Wales.

Reference to a sustainable future for agriculture is most welcome. Within a commitment to agriculture there should be a

chartrefi gofal i bobl ifainc. Mae ein agenda a'n blaenoriaethau yn gryn her. Bydd y polisiau a'r blaenoriaethau hyn yn rhoi inni yng Nghymru well iechyd, a hynny'n fwy cydradd.

Mick Bates: Cytunaf fod y prosesau a'r egwyddorion cyffredinol wedi bod yn rhai cadarnhaol, a gobeithiaf y byddant yn arwain at Gymru decach. Fodd bynnag, er mai cynllun strategol yw'r teitl arno, yr wyf yn ei ystyried yn weledigaeth strategol genedlaethol. Croesawaf y pwyslais trymach ar ddatblygu cynaliadwy oherwydd mae hynny wrth wraidd datblygiad y Cynulliad ac yn ein galluogi i wneud Cymru'n arbennig. Byddwn yn mynd cyn belled â dweud mai'r hyn sydd ei angen arnom, yn hytrach nag awdurdod datblygu i Gymru, yw awdurdod datblygu cynaliadwy i Gymru. Byddai hynny yn sail i'n hymrwymiad llwyr i weledigaeth o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Hoffwn atgyfnerthu pwyntiau Cynog Dafis, sef er bod cynnyrch mewnwladol crynswth yn fesur da o'n llwyddiant, gwella ansawdd bywyd yng Nghymru ddylai fod yn nod pennaf inni. Mae angen atgyfnerthu hynny drwy ymrwymo i fesur ffactorau sydd yn effeithio ar ansawdd bywyd yn flynyddol. Mae gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, er enghraifft, 14 elfen i fesur ansawdd bywyd, a da o beth fyddai inni eu mabwysiadu yn ein gweledigaeth strategol.

Dylai mabwysiadu cynllun ynni cynaliadwy i Gymru fod yn elfen gydradd yn y weledigaeth strategol hon. Rhaid inni droedio'r llinell honno. Byddai'n sail i'n gofal dros yr amgylchedd, yr economi a'n cymdeithas. Dylid addasu'r nodiadau arweiniad cynllunio yn unol â hynny. I wireddu ein gweledigaeth strategol rhaid inni sicrhau bod yna ddigon o gyfle yn y nodiadau arweiniad cynllunio i gymunedau gymryd rhan. Croesawaf yr egwyddor ryddfrydol o ddinasyddiaeth ddiwyd a fynegir yn y ddogfen. Ni ellir ond hybu hynny drwy gymryd rhan yn y drefn gynllunio, fel y gallwn ddatblygu'r prosiectau bio-màs cymunedol sydd mor bwysig yng nghydestun defnyddio ynni yng Nghymru.

Mae'r cyfeiriad at ddyfodol cynaliadwy i amaethyddiaeth i'w groesawu'n fawr. O fewn ymrwymiad i amaethyddiaeth dylai fod yna

commitment to developing an identity for Welsh food and to marketing it under one Welsh kite mark known throughout the world. That should be part of our strategic vision. I am concerned that there is little mention of tourism in the outlined strategic vision. Tourism was mentioned in the Objective 1 development plan. However, a higher priority should be placed on tourism in this strategic document, particularly green tourism.

Finally, to achieve this strategy we must ensure that part of it states that we should increase our funds. We must put pressure on the UK Government to increase the Barnett formula allocation for Wales. Only then, will we have a truly strategic vision.

Edwina Hart: I would have been a lucky Finance Secretary today to escape discussions on structural funds and the Barnett formula. As contributions came forward, I knew that my luck would never hold. However, it has been a mature and constructive debate. We have started to discuss some of the key issues that should bind us together in terms of priorities. I was struck by Dafydd Wigley's point that this is Welsh made. It is about Wales, what we can do in Wales, our priorities and actions and how we deliver. That is important in the development of this corporate plan and it reflects what devolution is about. Devolution is an ongoing process in many senses. Policies evolve. We must ensure that this corporate plan emerges as our policy.

I was also struck by comments on the importance of bilingualism, the language and the arts. Those issues are integral to our society. We have Welsh values and a community that must be part and parcel of this. We are different. We have certain community values, dreams and ambitions that bind us together. That must be reflected in the plan. Many of Dafydd's points reflected that. I also understand Glyn's point that we can only agree so far in a corporate and strategic plan. There will be division on certain issues. That is why we must all agree on a corporate plan, but accept that underlying it are the Assembly Secretaries'

ymrwymiad i ddatblygu hunaniaeth i fwyd o Gymru ac i'w farchnata dan un nod 'cutan Cymreig a fyddai'n adnabyddus drwy'r byd. Dylai hynny fod yn rhan o'n gweledigaeth strategol. Yr wyf yn gofidio bod cyn lleied o sôn am dwristiaeth yn y weledigaeth strategol a amlinellir. Soniwyd am dwristiaeth yng nghynllun datblygu Amcan 1. Fodd bynnag, dylid rhoi blaenoriaeth uwch i dwristiaeth yn y ddogfen strategol hon, yn enwedig twristiaeth werdd.

Yn olaf, er mwyn gwireddu'r strategaeth hon rhaid inni sicrhau bod rhan ohoni'n dweud y dylem gynyddu ein cyllid. Rhaid inni roi pwysau ar Lywodraeth y DU i gynyddu dyraniad fformwla Barnett i Gymru. Dim ond wedyn y bydd gennym weledigaeth wir strategol.

Edwina Hart: Byddai'n rhaid imi fod yn Ysgrifennydd Cyllid lwcus heddiw i ddianc heb drafodaeth am gronfeydd strwythurol a fformwla Barnett. Wrth i'r cyfraniadau ddod ymlaen, gwyddwn na allai fy lwc ddal. Fodd bynnag, cawsom drafodaeth aeddfed ac adeiladol. Yr ydym wedi dechrau trafod rhai o'r materion allweddol a ddylai ein huno o ran blaenoriaethau. Gadawodd pwynt Dafydd Wigley, sef bod hwn wedi ei wneud yng Nghymru, argraff arnaf. Mae'n ymwneud â Chymru, ein blaenoriaethau a'n gweithredoedd a'r hyn a gyflawnwn. Mae hynny'n bwysig yn y cynllun corfforaethol hwn ac mae'n adlewyrchu hanfod datganoli. Mae datganoli yn broses barhaus mewn llawer ystyr. Mae polisiâu'n esblygu. Rhaid inni sicrhau bod y cynllun corfforaethol hwn yn ymddangos fel ein polisi ni.

Peth arall a wnaeth argraff arnaf oedd sylwadau ar bwysigrwydd dwyieithrwydd, yr iaith a'r celfyddydau. Mae'r materion hynny yn ganolog i'n cymdeithas. Mae gennym werthoedd Cymreig a chymuned y mae'n rhaid iddynt fod â rhan lawn yn hyn. Yr ydym ni'n wahanol. Mae gennym werthoedd, breuddwydion ac uchelgeisiau cymunedol penodol sydd yn ein rhwymo at ein gilydd. Rhaid adlewyrchu hynny yn y cynllun. Yr oedd llawer o bwyntiau Dafydd yn adlewyrchu hynny. Deallaf hefyd bwynt Glyn na allwn ond cytuno i ryw raddau mewn cynllun corfforaethol a strategol. Bydd yna raniadau ar rai materion. Dyna pam y mae'n

lists and key objectives. We intend to do more work and have more discussion on how those objectives are delivered and on the layer underneath the plan.

Glyn Davies made an important point about competitiveness. Competitiveness and value for money are key issues. I was struck by Cynog and Peter's contributions, particularly on the environmental and sustainability issues. That must be reflected. As Mick commented, bringing other areas into the strategy, particularly the rural economy and our policy on power, is a key issue in the development of this plan.

4:29 p.m.

I was also struck by Richard's comments on SMEs and our international profile. He discussed how we had to co-ordinate learning objectives, looking at how the Education and Training Action Group report and the way we learn could be included. Janet Davies mentioned Best Value which is a key agenda for local government. However, it is also an agenda for us as we cannot ask others to do what we are not prepared to do ourselves. A wider point arises from Janet's comment on our partners and how this all fits together. If we have our corporate plan and we know our aims and outcomes, the bodies that we are responsible for must also link into our broad priorities. If they do that, we can consider their aims and outcomes and what they do in terms of sustainable development, which relates to Mick's point on the need for a Welsh sustainable development agency. We can look at these organisations and fit them in, provided that we can establish this broad profile across the board.

Valuable points have been made during this debate and they will be noted when we start the review before I print any revisions for a plan in December. The door is not shut on any of this. It is important that people write to me if they have any points about the plan, sharing any useful information with me. It is also important to acknowledge that we can

rhaid i bawb gytuno ar gynllun corfforaethol, ond gan dderbyn bod rhestrau ac amcanion allweddol Ysgrifenyddion y Cynulliad yn sail i'r cynllun. Bwriadwn wneud mwy o waith a thrafod mwy ar sut y cyflawnir yr amcanion hynny ac ar yr haen o dan y cynllun.

Gwnaeth Glyn Davies bwynt pwysig am fod yn gystadleuol. Mae bod yn gystadleuol a gwerth am arian yn faterion allweddol. Trawyd fi gan gyfraniadau Cynog a Peter, yn enwedig ar yr ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd. Rhaid adlewyrchu hynny. Fel y dywedodd Mick, mae dod â meysydd eraill i mewn i'r strategaeth, yn enwedig economi cefn gwlad a'n polisi ar ynni, yn fater allweddol yn natblygiad y cynllun hwn.

Trawyd fi hefyd gan sylwadau Richard am fentrau bach a chanolig eu maint a'n proffil rhyngwladol. Trafododd fel y mae'n rhaid inni gyd-drefnu amcanion dysgu, gan ystyried sut y gellid cynnwys adroddiad y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant a'r ffordd yr ydym yn dysgu. Soniodd Janet Davies am Werth Gorau sydd yn agenda allweddol i lywodraeth leol. Fodd bynnag, mae hefyd yn agenda i ni gan na allwn ofyn i eraill wneud yr hyn nad ydym ni'n fodlon ei wneud ein hunain. Mae pwynt ehangach yn codi o sylw Janet am ein partneriaid a sut y mae hyn oll yn cydweddu i'w gilydd. Os oes gennym gynllun corfforaethol a'n bod ni'n gwybod ein hamcanion a'n canlyniadau, rhaid i'r cyrff yr ydym yn gyfrifol amdanynt arddel mantell ein blaenoriaethau bras hefyd. Os gwnânt hynny, gallwn ystyried eu hamcanion a'u canlyniadau a'r hyn a wnânt o safbwynt datblygu cynaliadwy, sydd yn cysylltu â phwynt Mick ar yr angen am awdurdod datblygu cynaliadwy i Gymru. Gallwn edrych ar y cyrff hyn a gwneud lle iddynt, cyhyd â'n bod yn gallu sefydlu'r proffil bras hwn.

Gwnaethpwyd pwyntiau gwerthfawr yn ystod y ddadl hon a chânt eu nodi pan fyddwn yn dechrau ar yr adolygiad, cyn imi argraffu unrhyw newidiadau ar gyfer cynllun ym mis Rhagfyr. Nid yw'r drws wedi ei gau ar unrhyw elfen o hyn. Mae'n bwysig bod pobl yn ysgrifennu ataf os oes ganddynt unrhyw bwyntiau am y cynllun, gan rannu unrhyw

never get everything in to please everybody. We will have to accept something that we all agree on as the broadest way forward in terms of strategic development.

wybodaeth ddefnyddiol gyda mi. Mae'n bwysig hefyd cydnabod na allwn fyth gynnwys popeth i blesio pawb. Bydd yn rhaid inni dderbyn rhywbeth y mae pawb ohonom yn cytuno arno fel y ffordd gyffredinol ymlaen yn nhermau datblygu strategol.

I hope that Plaid Cymru has accepted my assurance about the consultation process and that they will be prepared to withdraw their amendment. I thank you all for the well-tempered and constructive debate this afternoon.

Gobeithiaf fod Plaid Cymru wedi derbyn y sicrwydd a roddais am y broses ymgynghori ac y byddant yn barod i dynnu eu gwelliant yn ôl. Diolchaf ichi oll am drafodaeth foesgar ac adeiladol brynhawn heddiw.

Dafydd Wigley: Pwynt o drefn. Yng ngoleuni'r sicrwydd a gefais yn awr gan Edwina Hart, yr wyf yn tynnu fy ngwelliant yn ôl.

Dafydd Wigley: Point of order. In view of the assurance I have now received from Edwina Hart, I withdraw my amendment.

Y Llywydd: Gan fod gwelliant Dafydd Wigley wedi ei dynnu yn ôl, fe bleidleisiwn ar y cynnig.

The Presiding Officer: As Dafydd Wigley's amendment has been withdrawn, we move to a vote on the motion.

Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo. Derbyniwyd y cynnig.

A vote was held by show of hands. Motion adopted.

Penderfyniad ar y Cynllun Pensiwn Resolution on the Pension Scheme

Y Llywydd: Cyn galw ar y Trefnydd i gynnig y cynnig, atgoffaf yr Aelodau fod newidiadau yn y cynllun pensiwn angen mwyafrif o ddwy ran o dair, gan gynnwys personau sydd yn ymatal.

The Presiding Officer: Before calling the Business Secretary to propose the motion, I remind Members that changes to the pension scheme need a two-thirds majority, including people who abstain.

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose that the Assembly determines

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiaf fod y Cynulliad yn penderfynu

that the National Assembly for Wales Members' Pension Scheme be amended as follows:

bod Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei newid fel a ganlyn:

in Rule 2(1), at the appropriate place, insert 'the Assembly Cabinet means the committee of the National Assembly for Wales established under section 56 of the Act';

yn Rheol 2(1), yn y lle priodol, ychwaneger 'the Assembly Cabinet means the committee of the National Assembly for Wales established under section 56 of the Act';

in paragraph (3) of Rule C2, in the definition of 'qualifying officer', add the following,

ym mharagraff (3) o Reol C2, yn y diffiniad o 'qualifying officer', ychwaneger y canlynol,

'; and the leader of the largest party not represented in the Assembly Cabinet';

'; and the leader of the largest party not represented in the Assembly Cabinet';

in Rule F1, after sub-paragraph (a) insert 'and' and delete sub-paragraph (c);

in Rule K6, in sub-paragraphs (a)(ii) and (c)(i) and (ii), in each place, for the words 'sub-paragraphs (a) to (c) of Rule F1(1)' substitute 'sub-paragraphs (a) and (b) of Rule F1'; and

in paragraph 9 of Schedule 1 for 'direction' substitute 'decision' and for 'subsequent direction' substitute 'further decision';

that there is established the National Assembly for Wales Members Additional Voluntary Contributions Scheme in the terms of the draft tabled on 14 October 1999.

Without tempting fate, I hope this is a straightforward issue. This resolution puts in place minor technical amendments to bring our pension scheme into line with the schemes operating in Westminster and the Scottish Parliament. It also brings the pension scheme into line with the decision taken here in July, that the leader of the largest party not represented in the Assembly Cabinet should be entitled to receive a salary by virtue of holding that office. It is an obvious corollary of that that the salary should also be pensionable. Financial provision for the cost of this change is already included in the Assembly's budget.

This is a non-party matter, as it affects us all as members of the scheme, regardless of our political allegiance. The trustees of the pension scheme have considered the proposed changes. Each of the political parties in the Assembly is represented among the trustees under the Chair of the Deputy Presiding Officer. In the newsletter issued by the trustees in August, they advised all Members of the need for a change to the eligibility rule and the introduction of an additional voluntary contribution scheme.

Owen John Thomas: Hoffwn eilio'r cynnig gerbron yn ffurfiol i newid cynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad.

Christine Humphreys: May I third that

yn Rheol F1, ar ôl is-baragraff (a) ychwaneger 'and' a dileer is-baragraff (c);

yn Rheol K6, yn is-baragraffau (a)(ii) ac (c)(i) a (ii), yn y naill le a'r llall, yn lle'r geiriau 'sub-paragraphs (a) to (c) of Rule F1(1)' rhodder 'sub-paragraphs (a) and (b) of Rule F1'; ac

ym mharagraff 9 o Atodlen 1 rhodder 'decision' yn lle 'direction' a rhodder 'further decision' yn lle 'subsequent decision';

bod Cynllun Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol yn cael ei sefydlu ar gyfer Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r telerau yn y drafft a gyflwynwyd ar 14 Hydref 1999.

Heb demtio ffawd, gobeithiaf fod hwn yn fater syml. Mae'r penderfyniad yn sefydlu mân newidiadau technegol fel bod ein cynllun pensiwn ni yn cyd-fynd â'r cynlluniau yn San Steffan a Senedd yr Alban. Mae hefyd yn adlewyrchu yn y cynllun pensiwn y penderfyniad a wnaethpwyd yma yng Ngorffennaf, y dylai arweinydd y blaidd fwyaf nad yw wedi ei chynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad fod â hawl i gyflog yn rhinwedd y swydd honno. Canlyniad amlwg hynny yw y dylai'r cyflog hefyd fod yn bensiynadwy. Mae darpariaeth ariannol ar gyfer cost y newid hwn wedi ei gynnwys eisoes yng nghyllideb y Cynulliad.

Nid yw hwn yn fater plaid, gan ei fod yn effeithio ar bawb ohonom fel aelodau o'r cynllun, waeth beth fo'n teyrngarwch gwleidyddol. Mae ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn wedi ystyried y newidiadau arfaethedig. Cynrychiolir pob un o'r pleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad ymysg yr ymddiriedolwyr dan Gadeiryddiaeth y Dirprwy Lywydd. Yn y cylchlythyr a gyhoeddwyd gan yr ymddiriedolwyr fis Awst, rhoddasant wybod i'r holl Aelodau bod angen newid y rheol gymhwyso a chyflwyno cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol.

Owen John Thomas: I would like to second formally the proposal to change the Assembly Members' pension scheme.

Christine Humphreys: Gaf i ail-eilio gan

since the proposal has already been fod y cynnig eisoes wedi ei eilio?
seconded?

The Presiding Officer: In this spirit of complete inclusivity, I look to my left at the Conservatives.

Y Llywydd: Yn yr ysbryd hwn o gynwysoldeb llwyr, edrychaf tua'r chwith at y Ceidwadwyr.

William Graham: I wholly agree to the proposal.

William Graham: Cytunaf yn llwyr â'r cynnig.

The Presiding Officer: In that case, I will move to a vote urgently.

Y Llywydd: Hoffwn felly symud i bleidlais ar fyrder.

*A vote was held by a show of hands.
Motion adopted.*

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.*

The Presiding Officer: I remind Members that there will be a meeting of the Commonwealth Parliamentary Association Wales five minutes after the session ends. That brings today's proceedings to a close.

Y Llywydd: Hoffwn atgoffa'r Aelodau y cynhelir cyfarfod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad Cymru bum munud ar ôl i'r sesiwn ddod i ben. Daw hyn â'n trafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 4:36 p.m
The session ended at 4:36 p.m*